# A G E N D A

1 **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 1 - 70)

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 22 Ionawr 2018 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

**1.** **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**2.** **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

**3.** **Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn uno.

**4.** **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

**5.** **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 8)

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

**6.** **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

**a)** Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalen 9)

*(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

**b)** Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**c)** Adborth gan Aelodau sy'n Hyrwyddwyr

**7.** **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**a)** Praesept a Threth y Cyngor 2018/19 (Tudalennau 10 - 28)

**b)** Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2018-19 hyd at 2022-23 (Tudalennau 29 - 60)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**8.** **Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Protocol Diwygiedig – Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 61 - 65)

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 66 - 67)

**9.** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:**

Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 @ 2.00 pm - cynhelir y cyfarfod os caiff y praesept ei wahardd gan Banel yr Heddlu a Throsedd

Dydd Llun, 19 Mawrth 2018 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Alan Hunter, Hugh Irving, Eric Jones, a Dylan Rees |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury, Matthew Forbes a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), Richard Jarvis (Cyfreithiwr) ac Eurgain Nutting (Cyfieithydd) |
| Hefyd yn bresennol: | Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd_, Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid – Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd Heddlu a Throsedd) a Susan McTaggart MBE (Prif Weithredwr Dros Dro – Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd) |

Atgoffodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

17. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd).

Oherwydd y tywydd garw, cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Dana Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y Cynghorydd Neville Phillips (Cyngor Sir y Fflint), a'r Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

18. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn ymddiriedolwr Uned Diogelwch Camdriniaeth Domestig Glannau Dyfrdwy, sy'n manteisio o gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

19. **MATERION BRYS**

Dim.

20. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 18 Medi 2017 i'w cymeradwyo.

Cofnod 5: Esboniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai'n rhoi diweddariad i'r cyfarfod nesaf gan *Banel Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau, sydd wrthi'n gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau.*

Cofnod 14 – Aelodau sy'n Gefnogwyr: Dylai ddarllen: Cefnogwr Camdriniaeth Domestig – y Cynghorydd Chris Bithell (*Cyngor Sir y Fflint*)

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 18 Medi 2017, ar ôl gwneud y diwygiadau uchod.**

21. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Mewn perthynas â Chofnod 10 - Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid wybod i'r Panel Heddlu a Throsedd am ffigurau recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) fel a ganlyn:

- Rhif targed i'w recriwtio 2017/18: 72
- Y gwir nifer sydd wedi'u recriwtio hyd yma: 125
- Nifer a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn: 139

Diolchodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am yr wybodaeth.

22. **CYFLWYNIAD AR Y GANOLFAN CYMORTH I DDIODDEFWYR, GOGLEDD CYMRU**

Gohiriwyd yr eitem hon.

23. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Diolchodd y Cadeirydd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl (Heddlu Gogledd Cymru) am drefnu'r diwrnod datblygu diweddar i aelodau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Roedd Aelodau'r Panel yn teimlo bod y digwyddiad wedi bod yn un llawn gwybodaeth ac o fudd iddynt.

24. **CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau yn unol â'r protocol ar gyfer Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

25. **RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd rhestr o benderfyniadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd o 22 Awst 2017 i 13 Tachwedd 2017 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cyfeiriwyd at y penderfyniad yn ymwneud â Recriwtio Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar y Cyd (dyddiedig 31.10.17) a'r penderfyniad i ddefnyddio gwasanaethau asiantaeth recriwtio am gost o £20k, a chostau hysbysebu.

Holodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a yw'r asiantaeth recriwtio yn gwmni lleol ac a yw hyn yn rhoi gwerth am arian, yn enwedig gan fod gan Heddlu Gogledd Cymru adran AD rhagorol.

Mewn ymateb, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd â'r sylwadau a wnaed a theimlodd y gellir fod wedi cynnal y broses recriwtio yn fewnol, ond roedd yn benderfyniad ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid wybod i'r Aelodau hefyd er bod yr asiantaeth recriwtio yn gwmni cenedlaethol, bod ganddo bresenoldeb yn lleol. Hefyd, teimlwyd trwy ddefnyddio gwasanaethau asiantaeth recriwtio, y byddai'n darparu gwell dealltwriaeth o ba sgiliau oedd eu hangen gan bum aelod y Cyd-bwyllgor Archwilio, a byddai o fantais i ymarferion recriwtio i'r dyfodol.

Awgrymodd y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y byddai arbenigedd o'r fath yn bodoli mewn Awdurdodau Lleol. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid wybod bod gwahaniaeth rhwng swyddogaeth Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor, a'r Cyd-bwyllgor Archwilio, oherwydd bod angen sgiliau cyfreithiol a chyfrifeg.

Sicrhaodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y Panel Heddlu a Throsedd yr edrychir ar faterion o'r fath yn fanylach yn y dyfodol, yn enwedig wrth ddatblygu'r Polisi Gwerth Cymdeithasol.

Wrth ddod i gasgliad, roedd y Panel Heddlu a Throsedd yn cydnabod bod gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hefyd bryderon mewn perthynas â'r penderfyniad hwn ar y cyd, ond roedd y Panel Heddlu a Throsedd wedi'u siomi ac yn bryderus bod y penderfyniad wedi'i wneud ac roeddent yn gobeithio, yn y dyfodol, y rhoddir ystyriaeth i wneud ymarferion recriwtio o'r fath yn fewnol.

Yn dilyn y cyfweliadau ym mis Chwefror 2018, gofynnwyd i'r Prif Swyddog Cyllid roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2018 ynglŷn â manteision defnyddio'r asiantaeth recriwtio a chostau cysylltiedig.

**PENDERFYNWYD-**

(a) **Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn mynegi eu siom a'u pryder mewn perthynas â'r penderfyniad i ddefnyddio gwasanaethau asiantaeth recriwtio i recriwtio 5 Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio.**

(b) **Bod y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2018 ar fanteision defnyddio'r asiantaeth recriwtio a chostau cysylltiedig.**

26. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Tud 3

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Awst 2017 ac 1 Tachwedd 2017.

Bydd manylion pellach y gweithgareddau ar ôl 1 Tachwedd 2017 yn cael eu rhoi yn y cyfarfod nesaf.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cynnal cynhadledd mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern ar 26 Hydref 2017 pan oedd nifer o bobl blaenllaw yn bresennol, gan gynnwys y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl yn yr Asiantaeth Drosedd Genedlaethol a'r Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth Annibynnol Cenedlaethol.

Wrth graffu'r diweddariad, trafododd y Panel Heddlu a Throsedd y canlynol:

Blaenoriaeth 1: Camdriniaeth Domestig:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) at wybodaeth a drafodwyd yn ddiweddar mewn cyfarfod yn yr Uned Diogelwch Camdriniaeth Ddomestig a oedd yn awgrymu diffyg atgyfeiriadau a chynnydd yn nifer yr achosion camdriniaeth domestig a wrthodwyd.
  - Mewn ymateb, rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wybod bod materion o'r fath wedi'u trafod yn ddiweddar yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol lleol a'i fod yn edrych ar y diffyg atgyfeiriadau gan y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr ac y byddai'n ymateb yn unol â hynny. Rhoddwyd gwybod hefyd bod y nifer o achosion camdriniaeth domestig a oedd yn llwyddiannus yn y llys yn parhau i fod yn uchel.
  - Cyfeiriwyd hefyd at oblygiadau'r Ddeddf Mechnïaeth, a oedd wedi'i gyflwyno'n ddiweddar, ac effaith hyn ar nifer yr arestiadau.
  - Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bod gan bartneriaid Cyfiawnder Troseddol bryderon ynglŷn â'r Ddeddf Mechnïaeth. Rhoddodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd hefyd wybod bod hyn yn cael sylw yn genedlaethol ac y gobeithir y bydd rhai newidiadau i'r broses fechnïaeth, yn enwedig mewn perthynas â phresenoldeb gwirfoddol.
- Awgrymodd y Cadeirydd hefyd bod angen agwedd partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus/asiantaethau eraill i fynd i'r afael â chamdriniaeth domestig, sydd wedi gweld cynnydd o 42.7% mewn troseddau a gofnodwyd *(ond, mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod y cynnydd o ganlyniad i gofnodi troseddau yn well, yn hytrach na chynnydd mewn troseddu. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrthi'n gweithio gyda'r Llu Heddlu i brofi'r ddamcaniaeth.)* Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn gweld cynnydd yn nifer y Plant Dan Ofal, wrth i broblemau yn ymwneud â thlodi a chamddefnyddio sylweddau gynyddu.
  - Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wybod i'r Aelodau am gynigion i sefydlu Canolfannau Ymyrraeth Gynnar i ddarparu cefnogaeth amlasiantaeth i'r bobl mwyaf diamddiffyn yn ein

cymdeithas i fynd i'r afael â'r achosion, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef profiadau plentyndod niweidiol.
- Rhoddodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd wybod y cynhelir cyfweliadau ar gyfer swydd Cydlynydd Canolfan yn fuan, i weithio gydag Awdurdodau Lleol yng Nghymru.
- Cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y bydd y canolfannau hefyd yn cefnogi'r cymunedau gwledig.
- Amlygodd yr Is-gadeirydd bwysigrwydd cynnwys cynrychiolwyr Addysg ar lefel strategol. Mewn ymateb, rhoddodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd wybod am swyddogaeth y Swyddog Cyswllt Ysgolion a lefel yr wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion. Hefyd, rhoddodd y Gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu hefyd gefnogaeth berthnasol i deuluoedd.
- Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyflwyniad ar y Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, gan ei fod yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd i fabwysiadu agwedd strategol at atal, diogelu a darparu cefnogaeth.

- Cyfeiriodd yr Aelod Cyfetholedig Annibynnol (John Williams) at adleoli'r ystafelloedd dalfa ac a yw hyn yn cael effaith ar nifer yr arestiadau, a holodd a roddwyd ystyriaeth i ystafelloedd dalfa symudol.
  - Mewn ymateb, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod y gall lleoliad yr ystafelloedd dalfa fod wedi cael effaith ar y lleihad yn nifer yr arestiadau. Ond, cyfeiriodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd at y cyfarfod blaenorol pan oedd y Prif Dditectif Arolygydd Andy Williams yn bresennol a rhoddwyd gwybodaeth mewn perthynas â newidiadau yn y modd y cofnodwyd troseddau, a rhoddwyd sicrwydd bod Swyddogion yr Heddlu yn gwneud eu gwaith ac nad oedd y lleihad mewn cyfraddau arestio yn ymwneud â Swyddogion ddim yn arestio, pan y dylent fod.
  - Teimlodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y dylai'r ffocws fod ar ganlyniadau a diogelu ac nid ar ystadegau troseddu. Hefyd, dylai'r ffocws fod ar reoli troseddwyr integredig.

Blaenoriaeth 3 - Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE):

- Er bod troseddau yn ymwneud â CSE yn parhau i fod yn isel, holodd y Cynghorydd Dylan Rees (Ynys Môn) am y cynnydd mewn gweithgaredd yn Ynys Môn yn ystod yr wythnosau diwethaf.
  - Byddai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymchwilio i'r mater hwn ymhellach ac yn adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Rees.

Blaenoriaeth 5 - Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dylan Rees hefyd at erthygl diweddar yn y wasg yn ymwneud â'r Wales Community Rehabilitation Company (CRC), sy'n rheoli troseddwyr risg isel i ganolig, ac maent wedi derbyn y bu 'diffygion' wrth reoli un cyn-droseddwr.
  - Mewn ymateb, rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wybod ei fod wedi gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r mater.

Rhoddodd y Cynghorydd Eric Jones (Gwynedd) wybod i'r Panel Heddlu a Throsedd ei fod wedi mynychu lansiad Polisi Gwerth Cymdeithasol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017. Roedd y Cynghorydd Jones wedi siomi bod cyn lleied o Aelodau'r Panel yn bresennol ac roedd yn teimlo bod presenoldeb mewn digwyddiadau o'r fath yn ddefnyddiol ac yn rhoi llawer o wybodaeth.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Bod y Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhoi gwybodaeth bellach i'r Cynghorydd Dylan Rees mewn perthynas â'r cynnydd mewn gweithgareddau Ymelwa'n Rhywiol ar Blant ar Ynys Môn.**

27. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2017/18 (AR 31 HYDREF 2017)**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid yr wybodaeth ddiweddaraf i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyllideb plismona Gogledd Cymru.

Ar 31 Hydref 2017, roedd y cyfanswm rhagamcaniad hyd at ddiwedd y flwyddyn yn net o £0.427miliwn o danwariant a disgwyliwyd i'r canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fod yn agos at y rhagamcaniad presennol.

Rhoddwyd gwybod hefyd nad oedd y cynnydd tâl ar gyfer staff wedi'i gadarnhau eto, ond rhagdybiwyd y bydd y gwerth a'r telerau yn debyg i'r cynnydd cyflog ar gyfer swyddogion yr heddlu, gan gynnwys cynnydd cyflog o 1% wedi'i gyfuno a chynnydd cyflog o 1% heb ei gyfuno. Amcangyfrifwyd bod y cynnydd cyfunol yn tua £0.945m ac roedd y swm hwn wedi'i gynnwys yn y rhagamcanion presennol; ond nid oedd cyllid ychwanegol ar gael i dalu'r gost ychwanegol a bydd angen talu unrhyw ddiffyg net o gronfeydd wrth gefn.

Mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf, rhoddwyd gwybod i'r Panel Heddlu a Throsedd bod Gorsaf Heddlu Llandudno rŵan wedi agor a bod y gwaith ar Orsaf Heddlu Llai yn datblygu yn dda.

Rhoddodd y Panel Heddlu a Throsedd wybod hefyd eu bod yn disgwyl cyhoeddiad ar gyfer pob ardal Llu Heddlu yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 18 Rhagfyr 2017. Ar hyn o bryd, ni allai'r Prif Swyddog Cyllid roi cyngor ar lefel y praesept arfaethedig, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid; gallai newid o 1% mewn cyllid fod gyfystyr â chynnydd/lleihad o £700k mewn cyllid.

Mewn perthynas â Pharagraff 3.7 yr adroddiad, rhagwelwyd na fyddai'r Prif Weithredwr yn dychwelyd i'r gwaith am o leiaf mis arall.

Cyfeiriwyd hefyd at y costau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y National Association of Police and Crime Commissioners.  Mewn ymateb, rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid wybod bod y costau yn cyfateb i tua £20k y flwyddyn.

Ond, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn teimlo fod hyn yn darparu gwerth am arian, oherwydd ei fod yn galluogi Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i ddylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â llunio polisïau a darparu cysylltiadau pwysig ar lefel leol ac i'r Ysgrifennydd Cartref a'r Arglwydd Ganghellor.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r adroddiad.**

28. **CYMHARU CYLLIDEB SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Panel Heddlu a Throsedd a oedd yn rhoi gwybodaeth ar sut yr oedd cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymharu gyda chyllidebau ei gyfoedion.

Cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017/18 oedd £0.793m, ac er fod hyn yn uwch na'r blynyddoedd diwethaf, roedd yn parhau i fod yn is na chyllideb y cyn Awdurdod Heddlu ac roedd yr isaf yng Nghymru.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid bod y gyllideb ar gyfer eiddo yn ymwneud â llogi ystafelloedd ar gyfer digwyddiadau, ayyb.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r adroddiad.**

29. **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD CYLLIDEB 1 EBRILL 2017 I 30 MEDI 2017**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol adroddiad monitro cyllideb chwe mis i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gostau gweinyddu a threuliau'r Panel am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2017.

Er mwyn caniatáu i'r cyhoedd graffu gwariant y Panel, a monitro ac olrhain gwariant yn erbyn cyllidebau a gytunwyd, byddai'r Panel Heddlu a Throsedd yn cael adroddiadau monitro cyllideb bob 6 mis i fodloni'r cais hwn.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi'r adroddiad monitro chwe mis.**

**(b) Bod y Panel Heddlu a Throsedd yn cydnabod bod Swyddogion yn monitro ac yn olrhain gwariant yn erbyn cyllidebau cytunedig i sicrhau gwerth am arian.**

30. **CRYNODEB O'R CWYNION A DDERBYNIWYD**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol grynodeb i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o gwynion a gafwyd am y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ers yr etholiad ym mis Mai 2016 a'r Dirprwy Gomisiynydd ers Gorffennaf 2016.

Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 3 cwyn cofnodadwy yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac 1 yn erbyn y Dirprwy Gomisiynydd.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.**

31. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol hyd at Mawrth 2018 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Croesawodd y Cadeirydd adroddiad ar y Cynllun Heddlu a Throsedd ar yr un pryd a'r adroddiad Praesept a Threth y Cyngor ym mis Ionawr 2018.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.**

32. **ADBORTH GAN AELODAU A AETH I'R GYNHADLEDD GENEDLAETHOL**

Rhoddodd Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd a aeth i'r Gynhadledd Panelau Heddlu a Throsedd Genedlaethol adborth fel a ganlyn:

- Roedd y Cadeirydd (y Cynghorydd Julie Fallon) wedi mynychu gweithdy ar Iechyd Meddwl, a oedd yn amlinellu model Swydd Gaerlŷr i fynd i'r afael â'r galw am wasanaethau a darparu gwell canlyniadau i gleifion ac asiantaethau. Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Panel, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Mynychodd yr Is-gadeirydd (Pat Astbury) weithdy ynglŷn â chwynion.
- Roedd yr Aelod Annibynnol a Gyfetholwyd (John Williams) wedi mynychu gweithdy ar reoli perfformiad; nodwyd bod y rhan fwyaf o'r Panelau Heddlu a Throsedd yn cael gwybodaeth debyg mewn perthynas â rheoli perfformiad. Nodwyd hefyd bod Panel Heddlu a Throsedd Manceinion wedi gwahodd Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi i gyfarfod Panel.

33. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Panel Heddlu a Throsedd ddydd Llun 22 Ionawr 2018 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 pm)

## CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

## QUESTIONS TO POLICE AND CRIME COMMISSIONER

| **Person sy'n cyflwyno'r cwestiwn/**<br><br>**Person submitting question** | **Cwestiwn/**<br>**Question** |
|---|---|
| John Williams<br><br>(Aelod Annibynnol o Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru/<br><br>Independent Member of the North Wales Police and Crime Panel) | • Oherwydd y cyhoeddusrwydd negyddol diweddar ynglŷn â materion datgelu, a yw Comisiynydd yr Heddlu yn fodlon bod digon o adnoddau ar gael yng Ngogledd Cymru fel y gall Swyddogion Ditectif sy'n ymchwilio i droseddau rhyw a throseddau eraill wneud eu dyletswyddau yn gywir ynghylch datgelu?"<br><br>• Given the recent adverse publicity surrounding disclosure issues, is the Police Commissioner satisfied that sufficient resources have been made available within North Wales in order that Detective Officers investigating sexual and other offences can accurately discharge their responsibilities surrounding disclosure? |

**Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

**Teitl:** **Praesept a Threth y Cyngor 2018/19**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 22 Ionawr 2018**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac i wneud argymhellion ar gyfer praesept a Threth y Cyngor 2018/19.

## 2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £74,739,488.

- Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor 3.58% - mae hyn yn gyfwerth â £258.12 y flwyddyn, cynnydd o £8.91 y flwyddyn neu 17c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D
- Dyma gynnydd o 4.55% o'i gymharu â phraesept 2017/18

2.2 Nodi bod toriadau o £1.479 miliwn wedi'u nodi ar gyfer 2018/19.

2.3 Nodi y bydd £0.717 miliwn o'r toriadau yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.

2.4 Nodi y bydd £0.762 miliwn pellach yn cael ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen o'r cynnydd ychwanegol yn y praesept.

2.5 Nodi bod y setliad grant uwch na'r disgwyl (£0.696 miliwn) wedi'i ddefnyddio i liniaru'r toriadau arfaethedig, ac felly'n diogelu 15 swydd rheng flaen.

2.6 Nodi y bydd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor yn is o lawer na thybiaeth y Swyddfa Gartref o £12.

2.7 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 3.58% yn 2018/19 a 3.44% yn 2019/20, 4.18 yn 2020/21, 4.19% yn 2021/22 a 3.44% yn 2022/23
- Y bydd grantiau plismona'n cael eu rhewi ar y lefelau presennol yn 2019/20 ac yna eu torri 1% bob blwyddyn o 2020/21
- Y bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2% o fis Medi 2018
- Y bydd costau ychwanegol mewn perthynas â Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu o 2019-20 na fydd yn cael eu hariannu gan yr Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru

## 3. Cyllideb 2018/19 – Crynodeb

| | | £miliwn | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb 2017/18** | | **143.217** | |
| Chwyddiant a gofynion ychwanegol | | 4.729 | +3.30% |
| **Gofyniad Cyllidebol 2018/19** | | **147.946** | |
| | | | |
| **Cyfanswm amcangyfrifedig y cyllid 2018/19** | | | |
| Grantiau Llywodraeth (canran ariannu o 49%) | | 71.728 | -0.00% |
| Treth y Cyngor | £258.12 | | +3.58% |
| Wedi'i luosi gyda'r sylfaen drethu | 289,553.26 | | +0.94% |
| Praesept (canran ariannu o 51%) | | 74,739 | +4.55% |
| **Cyfanswm y cyllid sydd ar gael** | | **146.467** | **+2.27%** |
| | | | |
| **Toriadau angenrheidiol** | | **1.479** | |

## 4. Eitemau Statudol

4.1 Ansawdd Gwybodaeth

4.1.1 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Adran 5) mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar addasrwydd yr wybodaeth a ddefnyddir fel sail i'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn gynnyrch gweithdrefnau sy'n parhau i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Caiff y systemau hyn eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol, ac nid yw archwilio allanol wedi cyhoeddi adroddiad archwilio amodol. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid, mae'r wybodaeth hon yn addas i'r diben.

4.1.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn dal yn ddigonol i anghenion gweithredu dyddiol yr Heddlu. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hadolygu, ac mae rhagor o fanylion ar gael ym mharagraff 10.

## 5. Cefndir

5.1 Bydd gwerth £29.625 miliwn o doriadau wedi'u cyflawni yn ystod y 7 mlynedd o fesurau cyni'r Llywodraeth. Mae cyllid grant wedi lleihau 22% yn ystod y cyfnod chwe blynedd, ac mae cyfanswm incwm y praesept wedi cynyddu 28% yn ystod yr un cyfnod; mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 21% mewn termau reol yng nghyfanswm y gyllideb. Mae'r tabl isod yn dangos y toriadau sydd wedi'u gwneud hyd yma:

| Blwyddyn | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau a Wnaed | £4.678m | £6.016m | £4.634m | £4.325m | £4.448m | £2.838m | £2.686m | ,, |

5.2 Cynhaliodd y Llywodraeth ddau adolygiad sylweddol yn ystod haf 2015 a fyddai'n pennu lefel grantiau'r Llywodraeth ar gyfer plismona ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Yn Adolygiad Gwariant 2015 edrychwyd ar ddyraniad cyllideb pob un o Adrannau'r Llywodraeth, gan gynnwys y cyfanswm oedd ar gael ar gyfer plismona. Arweiniodd yr adolygiad gwariant at doriad o 0.6% yng Ngrant Heddluoedd 2016-17 ac 1.4% yn 2017/18, gydag ymrwymiad i bennu cyllid y dyfodol ar lefel nad yw Heddluoedd yn wynebu toriadau ariannol os yw comisiynwyr heddlu a throsedd yn codi'r praesept.

5.3 Yn ystod 2017/18 cyflwynodd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabliaid achos i'r Swyddfa Gartref yn nodi'r gofynion ar gyfer cyllid ychwanegol ar gyfer y meysydd plismona ac nad yw toriadau pellach yn gynaliadwy. Mae'r tebygolrwydd y bydd y Llywodraeth yn symud draw oddi wrth y cap o 1% ar ddyfarniad cyflog blynyddol gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi pwysau pellach ar gyllidebau plismona'r dyfodol a'r gofyniad i gydnabod chwyddiant a'r galw newidiol o fewn y setliad grant.

5.4 Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad o Fformiwla Ariannu'r Heddlu, sef y fformiwla sy'n pennu sut y mae'r Swyddfa Gartref yn rhannu'r arian sydd ar gael ar gyfer plismona rhwng yr ardaloedd plismona. Cafodd yr adolygiad o'r fformiwla ei ohirio ar ôl i Heddluoedd godi materion ynghylch cywirdeb y fformiwla arfaethedig. Mae'r adolygiad erbyn hyn wedi ailgychwyn gyda'r bwriad o weithredu'r fformiwla newydd yn 2018/19. Penderfynodd y Swyddfa Gartref beidio â gweithredu'r fformiwla newydd yn 2018/19 yn dilyn ymgysylltu ag arweinwyr heddlu ac yng nghyd-destun y galw newidiol. Bydd y fformiwla yn cael ei hadolygu yn ystod adolygiad gwariant nesaf y Llywodraeth yn 2020.

**6. Yr Amgylchedd Cynllunio**

6.1 Mae'r CATC sydd ynghlwm yn nodi'r amgylchedd cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf ynghyd â rhagamcanion ar gyfer incwm refeniw a gwariant, a chynlluniau ar gyfer cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

6.2 Ni wnaethpwyd Dyraniadau Cyllid Darpariaethol ar gyfer 2018/19 ar adeg cyhoeddi setliad 2017/18. Fodd bynnag, ymddengys y byddai toriadau yn parhau yn ystod cyfnod y Senedd bresennol. Mae'r broses ar gyfer nodi a darparu arbedion wedi'i sefydlu'n dda dan drefn lywodraethol y Bwrdd Cynllunio Strategol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl.

6.3 Mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi'u cynnal, neu ar ganol eu cynnal, yn ystod 2017/18. Cynhaliwyd proses ar gyfer cylch cyllidebu 2018/19 i nodi gofynion newydd neu unrhyw fwlch mewn adnoddau o ganlyniad i'r adnoddau prin sydd ar gael. Mae grŵp cyfoedion, Prif Swyddogion a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi craffu ar y cynigion. Er mwyn sicrhau bod yr adolygiadau, yr arbedion a'r ceisiadau buddsoddi wedi'u cysylltu, cynhaliwyd tri Bwrdd Cynllunio Strategol Arbennig ym mis Awst, Medi a mis Tachwedd. Ym mis Awst bu i'r bwrdd nodi egwyddorion y cylch cynllunio, sef:

- Canolbwyntio ar ail-gydbwyso ac ailddyrannu adnoddau
- Cyfiawnhau neu dderbyn tystiolaeth o unrhyw achos am dwf
- Deall effaith gyfunol yr adolygiadau presennol
- Nodi canlyniad buddsoddiadau cynigion twf 2017/18

- Gosod y cyd-destun ar gyfer risg ac ansicrwydd
- Penderfynu/arwain ar y cynigion i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau twf ar gyfer pennu'r brif gyllideb

6.4 Yn ychwanegol at yr uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer penderfynu ar ofynion ariannol y dyfodol, sydd wedi'i hegluro'n fanylach yn y CATC. Wrth ddatblygu'r CATC hwn, ystyriwyd y canlynol:

- Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd, y Gofyniad Plismona Strategol a Chynllun Gweithredu Drafft yr Heddlu ar gyfer 2018/19
- Pwysau newydd ac sy'n datblygu
- Y broses gynllunio strategol
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd gyfredol
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael
- Rhagolygon cyllidebol y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau cyflog
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'r effaith ar y gyllideb refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a balansau
- Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

6.5 Cafodd £2.686 miliwn ei dorri o gyllideb 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol a rhagwelir y bydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd. Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o'r cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar ragamcanion refeniw a chyfalaf y pum mlynedd nesaf.

6.6 Pob blwyddyn mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r heddlu a'i sefyllfa ariannol gyffredinol, y prosesau cynllunio a'r arbedion blynyddol; ceir rhagor o fanylion yn y CATC. Nodwyd hefyd bod yr heddlu, hyd yma, *'yn dda am barhau i wneud arbedion, sy'n golygu y gall fuddsoddi'n dda mewn seilwaith er mwyn gwneud arbedion ychwanegol yn y dyfodol.'* Yn ogystal, dywedwyd bod angen gwaith pellach i ddeall y newid yn y galw yn y dyfodol. Mae hyn eisoes wedi'i gydnabod gan yr heddlu ac mae'r gwaith eisoes ar y gweill fel rhan o'r adolygiadau gwasanaeth sy'n cael eu cynnal.

## 7. Dyraniadau Cyllid

7.1 Ni chyhoeddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Anghylchol ar gyfer 2018/19 fel rhan o setliad 2017/18. Fodd bynnag, mewn llythyr at Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabliaid dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona *"gan ystyried y cyfle sydd gennych i godi Treth y Cyngor yn lleol, mae hyn yn golygu gwir setliad digyfnewid ar gyfer plismona yn ei gyfanrwydd".* Yn seiliedig ar hyn amcangyfrifwyd toriad blynyddol o 1% yn y cyllid grant yn CATC Ionawr 2017.

7.2 Mae'r diffiniad hwn o 'setliad digyfnewid' yn doriad mewn termau real; nid yw'n darparu ar gyfer chwyddiant nac unrhyw newid yn y galw.

7.3 Cyhoeddwyd cyllid 2018/19 ar 19 Rhagfyr 2017. Yn dilyn derbyn sylwadau gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd a Prif Gwnstabliaid, roedd y setliad yn well na'r hyn a ragdybiwyd fis

Rhagfyr 2016. Yr hyn a gyhoeddwyd oedd setliad **ariannol** digyfnewid, sef bod yr Heddluoedd yn derbyn yr un faint o grantiau craidd yn 2018/19 ag y gwnaethant yn 2017/18. Dyma'r tro cyntaf mewn 8 mlynedd i'r grantiau beidio â chael eu torri, er ei fod yn dal yn ostyngiad mewn termau real gan nad yw'r setliad yn adlewyrchu chwyddiant na gofynion ychwanegol.

7.4 Rhoddodd y setliad hefyd hyblygrwydd ychwanegol i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd Lloegr gynyddu Treth y Cyngor Band D hyd at £12. Byddai hyn yn rhoi ystod cynnydd Treth y Cyngor rhwng 4.8% a 12.2% pe byddai Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn cynyddu Treth y Cyngor £12, gyda mwyafrif y cynyddiadau dros 6%. Penderfyniad y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yw cynyddu Treth y Cyngor yn ôl y symiau hyn neu beidio. Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n diffinio capiau Treth y Cyngor ac nid yw wedi diffinio cap. Mae'r Swyddfa Gartref yn tybio y bydd yr holl Heddluoedd yn cynyddu Treth y Cyngor £12 wrth gyfrifo'r swm ychwanegol posibl fydd ar gael i'r Heddluoedd, sef £450 miliwn. Mae'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor yng ngogledd Cymru yn £8.91.

7.5 Tra bo'r gyllideb blismona wedi cynyddu 1.58%, oherwydd cynnydd mewn dyraniadau canolog (brigdorri) o 16%, mae'r swm sydd ar gael i'r Heddlu wedi'i rewi. Roedd y cyhoeddiad yn dangos y byddai £450 miliwn o arian ychwanegol ar gael i blismona, sef cynnydd o £133 miliwn yn nyraniad y Swyddfa Gartref a gedwir yn ganolog, £270 miliwn ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan bob ardal blismona drwy gynyddu Treth y Cyngor £12, a £50 miliwn ar gyfer gwrthderfysgaeth (a ariennir ar wahân). Mae manylion cyfanswm y cyllid ar gyfer yr Heddlu yn genedlaethol i'w gweld yn y tabl isod.

| | 2018/19 | Amr. |
|---|---|---|
| | £m | % |
| | | |
| | | |
| **Cyllid Llywodraeth Ganolog** | **8,631** | **1.58%** |
| | | |
| **Cronfa Trawsnewid ac ail-ddyraniadau eraill** | **946** | **16.38%** |
| | | |
| **Cyllid Uniongyrchol** | 7,685 | 0.00% |
| **NICC (arian Capital city)** | 178 | 0.00% |
| **Cyllid Fformiwla** | 6,962 | 0.00% |
| **Grantiau Treth y Cyngor etifeddol** | 545 | 0.00% |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Canolog** | **8,631** | **1.58%** |
| | | |
| **Rhagdyb Praesept y Swyddfa Gartref** | 3,627 | 9.65% |
| | | |
| **CYFANSWM (Cyllid Uniongyrchol a Phraesept)** | 11,312 | 2.91% |

7.6 Mae dadansoddiad o'r swm a frigdorrwyd i'w weld isod.

| Cyllid yr Heddlu | 2017/18 (£m) | 2018/19 (£ m) |
|---|---|---|
| **sy'n cynnwys ail-ddyraniadau ac addasiadau (b)** | **812** | **945** |
| PFI | 73 | 73 |
| Rhaglenni technoleg yr Heddlu | 417 | 495 |
| Cyrff hyd braich | 54 | 63 |
| Cryfhau'r ymateb i Droseddu Cyfundrefnol | 28 | 42 |
| Cronfa drawsnewid yr Heddlu | 175 | 175 |
| Grant Arbennig | 50 | 93 |
| Mechnïaeth Cyn Cyhuddo | 15 | 4 |

7.7 Mae canlyniad y cyhoeddiad cyllido a'i effaith ar Heddlu Gogledd Cymru i'w weld isod:

- Setliad arian digyfnewid ar gyfer holl ardaloedd yr heddlu. Golyga hyn y bydd gogledd Cymru yn cael yr un faint o grant ag y cafodd yn 2017/18, sef £71.728 miliwn
- Nodwyd y byddai setliad tebyg yn cael ei wneud yn 2019/20
- Mae'r 'brigdorri' cyffredinol wedi cynyddu o £812m miliwn i £945 miliwn. Mae hyn yn gostwng y grant craidd a roddir i ogledd Cymru £9.5 miliwn
- Torrwyd y Grant Cyfalaf o £0.541 miliwn i £0.462 miliwn yn 2017/18, sef gostyngiad o £0.079 miliwn, yn dilyn gostyngiad o £0.360 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Disgwylir i'r ffigwr hwnnw gael ei rewi ar £0.462 miliwn ar gyfer 2018/19, nid yw'r union ffigwr wedi'i gadarnhau eto
- Bydd heddluoedd Lloegr yn parhau i dderbyn nawdd treth cyngor etifeddol o £545 miliwn
- Mae'r Gweinidog Plismona wedi dynodi y bydd setliad 2019/20 yn debyg i setliad 2018/19
- Bydd y fformiwla gyllido'n cael ei hadolygu eto yn ystod yr adolygiad o wariant nesaf yn 2020. Felly, mae'n amhosibl rhagweld gydag unrhyw sicrwydd beth fydd y sefyllfa ariannol yn 2020/21 ac wedi hynny

7.8 Yn seiliedig ar y cyfansymiau a roddwyd a chyhoeddiad eleni, amcangyfrifir y bydd toriad pellach o 1% mewn grantiau ym mhob un o'r pedair nesaf.

## 8. Cyllideb 2017/18 i 2021/22

8.1 Mae crynodeb o'r rhagolygon cyllidebol a'r newidiadau ar gyfer 2018/19 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad A.

8.2 Prif ragdybiaethau'r CATC yw:

- Chwyddiant cyflog blynyddol o 2% o fis Medi 2018, mae hyn yn gynnydd o 1% o'i gymharu â'r rhagdybiaeth flaenorol gydag effaith blwyddyn gyfan o £1.2 miliwn o gostau yn ychwanegol
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol ble bo'n hysbys
- Bydd Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu yn cynyddu i £3 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd (mae'r manylion yn y CATC), 3.58% yn 2018/19, 3.44% yn 2019/20, 4.18% yn 2020/21, 4.19% yn 2021/22 a 3.44% yn 2022/23
- Rhewi'r grant ar gyfer 2018/19 a 2019/20 a gostyngiad o 1% wedi hynny
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2018/19 ymlaen.
- Gostyngiadau pellach yn y cyllid grant yn sgil yr adolygiad o'r fformiwla ariannu, a fyddai'n arwain at gynyddu Treth y Cyngor yn 2020/21 ac wedi hynny

8.3 **Arbedion** – Mae CATC 2017/18 yn cynnwys arbedion o £1.025 miliwn ar gyfer 2018/19. Cafodd y cynlluniau hyn eu datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn, a nodwyd arbedion ychwanegol fel rhan o'r adolygiadau. Effaith gyffredinol hyn yw cynnydd net yn yr arbedion, o £0.428 miliwn i £1.453 miliwn. Mae £7.453 miliwn pellach wedi'i gynnwys yn y cynllun 5 mlynedd ac mae'r manylion wedi'u nodi yn y CATC. Y ffrydiau gwaith penodol yw:

| Cynllun Arbedion 2017/18 - 2022/23 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm 5 ml. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Contractau TG | | | 75 | 75 | | 150 |
| Cyllid ac Adnoddau | 19 | | | | | 19 |
| Gwasanaethau Glanhau | | 75 | | | | 75 |
| Dyfodol Gweithredol PCSO's | | 557 | | | | 557 |
| Adolygu Ystadau | | 125 | 125 | | | 250 |
| Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 450 | | | | | 450 |
| Dyfodol Cyfathrebiadau | 71 | | | | | 71 |
| Fforensig | 25 | 100 | | | | 125 |
| Contract Fforensig | 275 | | | | | 275 |
| Adolygiad o Ddarpariaeth Feddygol yr Heddlu | 75 | 125 | | | | 200 |
| Caffael a Chontractau | 40 | 100 | | | | 140 |
| PFI | | 300 | | | | 300 |
| Cyfandaliad Blwydd-daliadau Staff yr Heddlu | 70 | | | | | 70 |
| Uned Galw a Gallu (moderneiddio digidol/gweithlu) ac Adolygiadau | | 150 | 1,375 | 1,550 | 1,700 | 4,775 |
| Ailddyrannu i gyllido Adolygiad Ymchwiliadol | | 1,000 | | | | 1,000 |
| Adolygiad o'r Gyllideb | 250 | | | | | 250 |
| Disodli Niche | 100 | | | | | 100 |
| Lleihau Arolygon | 34 | | | | | 34 |
| Trwyddedau Oracle | 44 | | | | | 44 |
| Arbedion Arfaethedig | 1,453 | 2,532 | 1,575 | 1,625 | 1,700 | 8,885 |

8.4 **Buddsoddi ac Adolygu** – Mae cylch cynllunio 2017/18 yn cynnwys adolygiadau gwasanaeth sy'n ymdrin â 41% o'r Heddlu, sef gwariant staff o £50 miliwn. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau patrolio a'r cysylltiad â'r Uned Adnoddau Rheoli, adnoddau ymchwilio, plismona ffyrdd, fforensig, y ddalfa, AD, prosiectau a gwasanaethau glanhau. Mae'r adolygiadau hyn ar gamau gwahanol, mae'r Uned Adnoddau Rheol wedi'i gweithredu ac mae canfyddiadau cychwynnol yr Adolygiad Ymchwiliadol wedi'u hadrodd. Bydd yr adolygiadau a'r ymchwil pellach sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cynorthwyo'r Heddlu i nodi arbedion effeithlonrwydd a meysydd y dylid buddsoddi ynddynt. Mae'r buddsoddiad twf ar gyfer 2018/19 yn cymryd y cam cyntaf tuag at y gofynion ymchwilio ychwanegol a nodwyd yn ogystal â nodi'r seilwaith i alluogi gwaith trawsnewid pellach yn seiliedig ar dystiolaeth i gwrdd â'r newid yn y galw.

8.5 Mae'r adolygiadau ymateb a'r Uned Adnoddau Rheoli wedi'u cysylltu, drwy rannol ariannu'r uned drwy leihau nifer y swyddogion ymateb oherwydd llai o alw. Fodd bynnag, oherwydd bod y setliad grant yn well na'r disgwyl ni fu'n rhaid lleihau nifer y swyddogion ymateb yn ôl y disgwyl. Defnyddiwyd y grant ychwanegol i ariannu 15 swyddog o fewn yr Uned Adnoddau Rheoli yn hytrach na lleihau nifer y swyddogion ymateb i ariannu'r uned. Bydd dyrannu swyddogion i feysydd gwahanol yn ganolog i'r adolygiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gynhelir yn 2018/19, a thrwy gadw'r swyddogion ymateb rŵan mae modd gwneud hyn gyda'i gilydd yn hytrach na fesul cam.

8.6 Mae crynodeb o'r twf parhaol a'r twf dros dro i'w gweld yn y tabl isod. Mae Treth y Cyngor ychwanegol o 1.057% o'r amcangyfrif gwreiddiol o 2.5% yn ariannu £0.762 o'r twf, mae'r balans wedi'i ariannu drwy ailddyrannu adnoddau drwy'r cynllun arbedion. Cafodd 62 cynnig ei ddadansoddi, ei sgorio a'i adolygu, gan ddod i £2.384 miliwn o gyllid cylchol a £4.098 miliwn o gyllid anghylchol/cyfalaf, cafodd y rhain eu lleihau'n sylweddol i'r ffigyrau a welir yn y tabl isod.

| Tabl Crynodeb o'r Cynigion | Cyllid cylchol arfaethedig | Cyllid anghylchol arfaethedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Adnoddau Ymchwilio | £838,899 | £247,856 | £1,086,755 |
| Datblygiad digidol a thechnoleg | £58,501 | £874,811 | £933,312 |
| Plismona ar sail tystiolaeth | £121,090 | £597,446 | £718,536 |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Galluogi | £98,369 | £311,605 | £409,974 |
| Cefnogi ein Gweithlu | £104,603 | £215,118 | £319,721 |
| Ymrwymiadau'r Comisiynydd | £258,000 | £0 | £258,000 |
| Cyfanswm | £1,479,462 | £2,246,836 | £3,726,298 |

- **Adnoddau Ymchwilio** – Bydd yr adnoddau ymchwilio ychwanegol yn darparu ymchwilwyr ychwanegol fel Dadansoddwyr Gwybodaeth. Mae hyn yn ganlyniad i'r newid yn y galw a'r gofynion a amlygwyd yn yr Adolygiad Ymchwiliol, a bydd yn darparu 20 o adnoddau ymchwilio ychwanegol. Mae hyn wedi'i ariannu'n rhannol gan y cynnydd ychwanegol a gytunwyd yn y praesept o'r CATC blaenorol.
- **Datblygiad Digidol a Thechnoleg** – Bydd hyn yn darparu technoleg symudol ychwanegol i staff rheng flaen a'r gallu i'w defnyddio gyda systemau gweithredol.

- **Plismona yn Seiliedig ar Dystiolaeth** – Bydd hyn yn darparu'r isadeiledd i staff ddatblygu adolygiadau ar sail tystiolaeth ymhellach, adolygu meysydd eraill a chysylltu'r adolygiadau.
- **Isadeiledd a Gwasanaethau Galluogi** – Mae'r maes hwn yn ymdrin â gofynion ychwanegol sydd wedi'u nodi gan yr Adran Safonau Proffesiynol a system Rheoli Risg a Phrosiect.
- **Cefnogi'r Gweithlu** – Mae'r buddsoddiad hwn yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi ychwanegiadau mewn meysydd eraill.
- **Ymrwymiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd** – Mae hwn yn gynnydd o £0.2 miliwn yn y Gronfa Diogelwch Cymunedol ar gyfer Prosiect Pathfinder Merched, gyda chyllid ar gyfer 1.5 swydd gomisiynu yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

8.7 Mae'r newid cyffredinol yn y gyllideb wedi'i grynhoi yn y tabl isod.

| | 2017-18 | 2018-19 | % Newid |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | |
| **Gwariant Gros** | 160,303 | 163,644 | 2.16% |
| **Incwm a Chronfeydd Wrth Gefn** | -17,086 | -17,177 | 0.53% |
| | | | |
| **Gwariant Net** | 143,217 | 146,467 | 2.27% |
| | | | |
| **Grant** | -71,728 | -71,728 | -0.00% |
| **Praesept** | -71,489 | -74,739 | 4.55% |
| | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **-143,217** | **-146,467** | **2.27%** |
| | | | |

8.8 Mae gwaith pellach wedi'i wneud ar gyllidebau rhagamcanol 2019-20 hyd 2022-23, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r cyllidebau rhagamcanol diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2017-18 hyd 2021-22 i'w gweld isod. Mae cynllun arbedion heriol o £7.4 miliwn wedi'i lunio ar gyfer y cyfnod o 2019-20 hyd 2022-23. Dan yr amgylchiadau arferol byddai hyn yn ddigon i gydbwyso'r gyllideb a chaniatáu rhywfaint o ail-fuddsoddi, ond oherwydd y dyfarniadau cyflog uwch nad ydynt yn cael eu hariannu gan grantiau uwch, byddai angen cynyddu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu a Threth y Cyngor rhwng 3.44% a 4.19%, mae'r cynnydd mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog a'r Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu ar gael ar waelod y tabl isod. Bydd y rhagamcanion hyn yn cael eu nodi mewn mwy o fanylder pan fo rhagor o wybodaeth ar gael.

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant Gros | 167,388 | 170,572 | 173,828 | 177,107 |
| Incwm a Chronfeydd wrth Gefn | -17,201 | -17,228 | -17,258 | -17,205 |
| Gwariant sylfaen gros | **150,187** | **153,344** | **156,570** | **159,902** |
| | | | | |
| Grant | -71,728 | -71,010 | -70,300 | -69,597 |
| Praesept gyda chynnydd o 2.5% yn Nhreth y Cyngor | -76,799 | -78,916 | -81,091 | -83,326 |
| Cyfanswm y cyllid a amcangyfrifir | -148,527 | -149,926 | -151,391 | -152,923 |
| Diffyg cyn camau unioni | **1,660** | **3,418** | **5,179** | **6,979** |
| | | | | |
| Diffyg blynyddol sylfaenol | **1,660** | **1,758** | **1,761** | **1,800** |
| | | | | |
| Cynnydd blynyddol ychwanegol posibl | | | | |
| Adolygiad ymchwiliadol | 1,000 | 20 | 20 | 21 |
| Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu | 576 | 702 | 1,215 | 675 |
| Cyfalaf | | 400 | 0 | 0 |
| Diffyg diwygiedig cyn camau unioni | 3,236 | 2,880 | 2,996 | 2,614 |
| | | | | |
| Cynllun Arbedion Blynyddol | -2,532 | -1,575 | -1,625 | -1,700 |
| Balans i'w gyllido o'r Praesept | **704** | **1,305** | **1,371** | **914** |
| Cynnydd angenrheidiol yn Nhreth y Cyngor | **3.44%** | **4.18%** | **4.19%** | **3.44%** |
| Cynnydd Band D | £8.88 | £11.16 | £11.65 | £9.97 |
| sy'n cynnwys | | | | |
| Cynnydd ychwanegol o 1% yn y cyflogau | **1.59%** | **1.56%** | **1.54%** | **1.51%** |
| FfCAH a darpariaeth gyfalaf | **0.77%** | **0.90%** | **1.48%** | **0.79%** |

8.9 Mae'r uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth gynllunio, fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Mae newid bychan yn y prif ragdybiaethau yn arwain at newid sylweddol yn y costau neu'r cyllid, fel y nodir yn y tabl sensitifrwydd isod. Dan amgylchiadau arferol byddai grantiau yn cynyddu i gwrdd â chwyddiant ond nid dyma'r achos ar hyn o bryd. Byddai modd dargyfeirio arbedion wedyn i'r newid mewn galw. Fodd bynnag yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni mae'n rhaid edrych ar gymysgedd o arbedion, cynnydd yn Nhreth y Cyngor ac ail-ddyrannu adnoddau i gydbwyso'r gyllideb a darparu'r gwasanaeth gorau posibl.

| Prif Newidynnau Sensitif | £m |
|---|---|
| Newid o 1% yn Nhreth y Cyngor | 0.721 |
| Newid o 1% yn y grant | 0.717 |
| Newid o 1% mewn cyflogau | 1.221 |
| Newid o 1% mewn chwyddiant cyffredinol | 0.420 |
| Gostyngiad o 1% mewn incwm a grantiau penodol | 0.170 |

## 9.0 Risgiau

9.1 Mae manylion y risgiau i'r gyllideb wedi'u nodi yn y CATC. Ceir crynodeb o'r prif risgiau isod; mae rhai o'r rhain eisoes wedi'u hamlygu yn yr adroddiad:

- Ansicrwydd ariannol, gan gynnwys brigdoriant, a manylion yn cael eu darparu'n hwyr yn ystod y cylch cynllunio
- Newidiadau yn y dyfodol i'r fformiwla ariannu, a all fod yn niweidiol i ogledd Cymru; dileu'r grant gwaelodol
- Gofynion cenedlaethol a lleol, megis Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu a system gyfathrebu newydd yr Heddlu
- Newid yn y galw am blismona
- Darparu cynlluniau arbedion presennol
- Cynllunio arbedion i'r dyfodol
- Y sefyllfa economaidd genedlaethol yn gwaethygu, ac yn arwain at ragor o doriadau
- Cynnydd mewn costau cyflog (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol) – mae cyflog yn cyfrif am 80% o'r gyllideb net

## 10. Cadernid a Chronfeydd Wrth Gefn

10.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), a digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg yma wedi'i rheoli drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau arian at raid. Mae'r rhain wedi'u lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

10.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn yn ystod y broses gyllidebol ac wrth gynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon. Cafodd y cronfeydd wrth gefn eu hail-ddyrannu fel rhan o'r CATC diwethaf ac nid ydynt wedi'u hail-ddyrannu yn ystod y CATC hwn. Bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

10.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £38.1 miliwn i £19.1 miliwn yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Bydd y lleihad mwyaf yn cael ei wneud yn 2017/18 wrth ddefnyddio'r Cronfeydd Cyfalaf i ariannu buddsoddiadau Ystadau Wrecsam a Llandudno. Bwriedir buddsoddi ymhellach yn defnyddio'r gronfa rheoli newid i wneud y newidiadau angenrheidiol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Ceir disgrifiad o bob cronfa ar ddiwedd yr adran.

10.4 Fel rhan o'r setliad cyllidebol mae'r Gweinidog Plismona wedi dweud y byddai canllawiau newydd ar dryloywder cronfeydd yn cael eu cyhoeddi. Disgwylir y bydd y manylion isod, sydd wastad wedi'u cynnwys yn y CATC a'r Datganiad Cyfrifon, yn bodloni'r gofynion hyn.

10.5 Bydd defnyddio cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar y gwariant cyfalaf a'r setliadau refeniw terfynol, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun presennol i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Pan nad yw defnydd cronfa wrth gefn yn hysbys (megis cronfa wrth gefn

digwyddiadau mawr), ni ddangosir unrhyw newid. Mae manylion y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u nodi yn y tabl.

| Sefyllfa Cronfeydd Wrth Gefn | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio* | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | 3.663 | 1.829 | 2.068 | 1.494 | 1.217 | 1.217 |
| **Balans y Gronfa Gyffredinol** | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| **Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol wedi'i chlustnodi (gweler y manylion isod)** | 29.256 | 16.526 | 13.609 | 12.853 | 12.818 | 12.700 |
| | | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy | **38.108** | **23.544** | **20.866** | **19.536** | **19.224** | **19.106** |

| Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol wedi'i Chlustnodi | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
| | | | | | | |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Buddsoddiad Cyfalaf** | 12.090 | 0.448 | 0.448 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Digwyddiad mawr** | 2.435 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 |
| **Cronfa Bensiwn Afiechyd** | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 |
| **Cronfa Wrth Gefn Yswiriant** | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 |
| **Cronfa Wrth Gefn PFI** | 3.987 | 4.212 | 4.333 | 4.377 | 4.342 | 4.224 |
| **Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau** | 1.659 | 0.962 | 0.962 | 0.962 | 0.962 | 0.962 |
| **Rheoli Newid** | 5.921 | 5.543 | 2.505 | 2.153 | 2.153 | 2.153 |
| **Cronfa Wrth Gefn Partneriaethau** | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 |
| **Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd** | 0.276 | 0.276 | 0.276 | 0.276 | 0.276 | 0.276 |
| **Cronfa Gyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.041 | 0.041 | 0.041 | 0.041 | 0.041 | 0.041 |
| **Cyllideb Gyfranogi Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.002 | 0.002 | 0.002 | 0.002 | 0.002 | 0.002 |
| **Cronfa Wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.257 | 0.257 | 0.257 | 0.257 | 0.257 | 0.257 |
| **Cyfanswm** | **29.256** | **16.526** | **13.609** | **12.853** | **12.818** | **12.700** |

**10.6** Ceir disgrifiad manwl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd isod.

**Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf** – I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau a seilwaith yr Heddlu i wella gwasanaethau a lleihau gwariant refeniw.

**Cronfa Digwyddiadau Mawr (Risg)** – I'w defnyddio pan fo digwyddiad mawr yn gofyn am adnoddau ychwanegol i'r rheiny yn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa hon wedi arwain at leihau'r gyllideb digwyddiadau mawr wrth gefn.

**Cronfa Bensiwn Afiechyd (Risg)** – Mae'n rhaid i'r Heddlu dalu swm untro sydd cyfwerth â dwywaith cyflog swyddog ar gyfer pob Ymddeoliad Ar Sail Afiechyd Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi lleihau'r angen am y gyllideb yn y gyllideb refeniw.

**Yswiriant (Risg)** – Mae hwn yn ymwneud â'r Municipal Mutual Insurance Limited scheme of Arrangement a all arwain at daliad terfynol o oddeutu £0.432 miliwn; ar gyfer hawliadau sy'n dod i'r amlwg a hawliadau anhysbys yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi gan y brocer yswiriant.

**Cronfa PFI (Refeniw wedi'i glustnodi)** – Mae angen y gronfa hon gan fod y cyllid ar gyfer PFI gan y Llywodraeth yn lleihau pob blwyddyn; a bydd y gronfa yn lleihau yn ystod cyfnod y contract PFI.

**Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ariannu gwaith cynnal a chadw a diogelwch ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

**Rheoli Newid (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Buddsoddiad sydd ei angen i hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hir.

**Cronfa Wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Balansau a gedwir ar gyfer partneriaethau penodol a fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw hyd nes bydd cyllid yn cael ei dynnu'n ôl ac yn arwain at gostau ychwanegol.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.

**Cronfeydd Wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Cronfa wrth gefn y swyddfa, cronfa gyfreithiol a chyllideb gyfranogi.

## 11. Cyfalaf

11.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf bresennol, a ddatblygwyd yn 2013/14, yn tynnu tua'i therfyn. Erbyn diwedd 2018/19 bydd y canlynol wedi'i gyflawni:

- 4 cyfleuster mawr newydd yn Llangefni, Llandudno a Wrecsam (2 adeilad)
- 20 cyfleuster wedi'i ailwampio ac adleoliadau
- Parhau â'r Rhaglen Amnewid Cerbydau
- Uwchraddio rhwydweithiau, gweinyddwyr, byrddau gwaith, dyfeisiau symudol a newid systemau technoleg yr Ystafell Reoli

11.2 Mae angen buddsoddi parhau yn asedau a seilwaith yr Heddlu, er mwyn sicrhau arferion gwaith effeithlon a modern. Mae strategaethau Ystadau, TG a Fflyd yn cael eu diweddaru ac yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf newydd yn ystod y 12 mis nesaf. Mae amcangyfrifon wedi'u cynnwys ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, a bydd y rhain yn destun achosion busnes cyn rhoddir unrhyw gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â nhw.

11.3 Bydd Rhaglen 2018/19 yn cynnwys cwblhau dalfa, pencadlys a chyfleusterau tref Wrecsam; hwn yw'r prosiect mwyaf y mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymgymryd ag o erioed. Bydd

rhaglenni amnewid fflyd a TG yn parhau, ac fel rhan o'r broses gyllidebol cytunwyd ar fuddsoddiadau o £1.155 miliwn ar gyfer galluogi newid.

11.4 Mae'r rhaglen yn fforddiadwy ac wedi'i hariannu yn defnyddio grantiau, cronfeydd wrth gefn, refeniw uniongyrchol a benthyciadau. Y strategaeth gyffredinol yw lleihau benthyca a gwneud y mwyaf o'r symiau yn y gyllideb refeniw drwy ddefnyddio cyfraniad refeniw uniongyrchol a derbyniadau cyfalaf sydd, yn eu tro, yn lleihau taliadau llog.

11.5 Mae'r ffigyrau cyfalaf ar gael yn y CATC; bydd y cynllun mawl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol fel rhan o'r Strategaeth Cod Darbodus a Rheoli'r Trysorlys.

**11.6 Rhaglen Gyfalaf 2017/2018 i 2022/23**

| **Gwariant** | | **£m** | |
|---|---|---|---|
| Ystadau | | 27.033 | |
| Cerbydau ac Offer | | 9.099 | |
| Technoleg Gwybodaeth, a Chyfathrebu | 8.681 | | |
| Cyfanswm | | | 44.813 |
| **Cyllid** | | | |
| Grantiau | | | 2.772 |
| Cyfraniad Refeniw | | 7.795 | |
| Cronfeydd Wrth Gefn | | | 13.882 |
| Derbyniadau Cyfalaf | | | 6.505 |
| Benthyca – Ystadau | | 9.607 | |
| Benthyca – Rhaglen Newid Offer TG | 4.252 | | |
| Cyfanswm | | | 44.813 |

## 12. Ystyried y Dewisiadau

12.1 Mae'r newidiadau mawr canlynol wedi'u gwneud rhwng y CATC blaenorol a'r CATC presennol:

| **Newidiadau rhwng 2015/16 a 2016/17** | **Ionawr 2017** | **Ionawr 2018** |
|---|---|---|
| Lleihad yn y grant gan y Llywodraeth | 1% | 0% |
| Cynnydd yn Nhreth y Cyngor | 2.5% | 3.58% |
| Toriadau wedi'u cynllunio/nodi ar gyfer 2017/18 | £1.025m | £1.479m |
| Cynnydd yn y Sylfaen Drethu | 0.25% | 0.94% |

Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael. Nid oedd y gostyngiad o £1.025 miliwn a ragdybiwyd yn flaenorol ar gyfer 2018/19 yn ystyried galw sy'n dod i'r amlwg, a oedd yn golygu y byddai'n rhaid adleoli swyddogion rheng flaen i gwrdd â'r galw. Ym mis Tachwedd, cyflwynodd yr Heddlu gynlluniau drafft yn seiliedig ar doriad o 1% yn y grant ac arbedion o £1.4 miliwn, ac adleoli swyddogion rheng flaen i ariannu'r Uned Adnoddau Rheoli. Byddai hyn wedi arwain at gynnydd o 3.58% yn Nhreth y Cyngor (cynnydd o £8.91 i eiddo Band

D). Petai'r arbedion heb eu canfod byddai'r cynnydd wedi bod yn 5.63% (£14.02 i eiddo Band D); fodd bynnag cafodd hyn ei leihau wrth i'r Heddlu nodi arbedion y mae modd eu hail-fuddsoddi. Roedd y setliad grant terfynol yn well na'r disgwyl, ond roedd hefyd yn tybio cynnydd Treth y Cyngor o £12 i eiddo Band D, sef cynnydd o 4.8% yng ngogledd Cymru. Wrth benderfynu ar y cynnydd arfaethedig i Dreth y Cyngor, mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd a sicrhau bod gan wasanaeth yr heddlu gyllid digonol, yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y 7 mlynedd ddiwethaf a'r hyn a ragwelir fydd yn digwydd yn y 5 mlynedd nesaf. Wrth reswm, bydd toriadau ychwanegol yn effeithio ar nifer y swyddogion a gweithwyr rheng flaen. Yn seiliedig ar hyn, a'r arbedion y mae'r Heddlu eisoes wedi'u gwneud, mae'r Comisiynydd wedi penderfynu peidio â chynnydd Treth y Cyngor £12 ond, yn hytrach, cynnig cynnydd o 3.58% a fydd yn diogelu'r gyllideb ac yn caniatáu rhywfaint o fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen.

12.2 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl sydd wedi cadarnhau bod codi Treth y Cyngor 3.58% yn darparu cyllideb ddigonol i weithredu'r gwasanaeth plismona yn 2018/19. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel y dyraniad grant yn y dyfodol, dyfarniadau cyflog a newidiadau yn y pwysau gweithredol, nid yw'n bosibl gwneud sylw ar hyn o bryd ar gywirdeb y rhagdybiaethau cynllunio, a byddai gostyngiad sylweddol yn y dyraniad grant neu gynnydd uwch na'r disgwyl yn y dyfarniad cyflog yn arwain at doriadau pellach a chynnydd uwch yn Nhreth y Cyngor yn y dyfodol.

12.3 Wrth gynyddu Treth y Cyngor 3.58% mae'r swm ar gyfer pob band eiddo yn:

| Band Treth | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Treth y Cyngor £ | 172.08 | 200.76 | 229.44 | 258.12 | 315.48 | 372.84 | 430.20 | 516.24 | 602.28 |

12.4 Praesept pob ardal filio yw:

| Awdurdod Bilio | Sylfaen Drethu | Praesept |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | 30,773.31 | £7,943,207 |
| **Cyngor Gwynedd** | 52,083.07 | £13,443,682 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | 50,026.64 | £12,912,876 |
| **Cyngor Sir Ddinbych** | 39,555.24 | £10,209,999 |
| **Cyngor Sir y Fflint** | 63,835.00 | £16,477,090 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | 53,280.00 | £13,752,634 |
| **Cyfanswm** | **289,553.26** | **£74,739,488** |

**13. Goblygiadau**

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar nifer y gweithwyr yn y dyfodol. |
| Ariannol | Diben yr adroddiad hwn yw argymell Praesept a Threth y Cyngor 2018/19, ac egluro'r ffactorau sydd wedi'u hystyried wrth wneud yr argymhelliad hwn. Er bod yr argymhelliad ar gyfer un flwyddyn ariannol, mae'n bwysig ystyried y sefyllfa hirdymor a thymor canolig wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i weithredu cynllun yr heddlu a throsedd ac i fodloni ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Mae'r adroddiad hwn, yn ogystal â'r CATC, yn darparu gwybodaeth ddigonol i'r Panel Heddlu a Throsedd wneud penderfyniad a all wrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol. |
| Risg | Mae'r adroddiad yn nodi ac yn gwerthuso'r risgiau yn sgil yr argymhellion. |
| Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |

**Atodiad A**

## Cyllideb Refeniw 2017-18 i 2022-23

| | | Cyllideb Flynyddol 2017-18 | + Cyn. - Gost. 2018-19 | Cyllideb Flynyddol 2018-19 | + Cyn. - Gost. 2019-20 | Cyllideb Flynyddol 2019-20 | + Cyn. - Gost. 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | + Cyn. - Gost. 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | + Cyn. - Gost. 2022-23 | Cyllideb Flynyddo 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 1 | **Cyflog Swyddogion Heddlu** | 73,921 | 1,150 | 75,071 | 2,248 | 77,319 | 1,566 | 78,885 | 1,597 | 80,482 | 1,620 | 82,102 |
| 2.1 | **Cyflog Staff yr Heddlu** | 34,847 | 2,375 | 37,222 | 798 | 38,020 | 814 | 38,834 | 831 | 39,665 | 849 | 40,514 |
| 2.2 | **PCSO's** | 6,775 | 118 | 6,893 | 69 | 6,962 | 70 | 7,032 | 70 | 7,102 | 71 | 7,173 |
| Go | **Goramser Swyddogion Heddlu** | 1,989 | 24 | 2,013 | 20 | 2,033 | 20 | 2,053 | 21 | 2,074 | 21 | 2,095 |
| 4 | **Goramser Staff yr Heddlu** | 400 | 8 | 408 | 4 | 412 | 4 | 416 | 4 | 420 | 4 | 424 |
| 5 | **Lwfansau** | 1,713 | -223 | 1,490 | -23 | 1,467 | -20 | 1,447 | -21 | 1,426 | -20 | 1,406 |
| 6 | **Hyfforddiant** | 676 | 13 | 689 | 14 | 703 | 14 | 717 | 15 | 732 | 14 | 746 |
| 7 | **Gweithwyr eraill** | 694 | 14 | 708 | 15 | 723 | 14 | 737 | 15 | 752 | 15 | 767 |
| 8 | **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol** | 3,164 | 63 | 3,227 | 65 | 3,292 | 66 | 3,358 | 67 | 3,425 | 68 | 3,493 |
| 9 | **Costau Ynni** | 1,116 | -67 | 1,049 | 32 | 1,081 | 32 | 1,113 | 33 | 1,146 | 35 | 1,181 |
| 10 | **Costau Rhedeg Adeiladau** | 6,602 | 132 | 6,734 | 135 | 6,869 | 138 | 7,007 | 140 | 7,147 | 143 | 7,290 |
| 11 | **Cynnal a Chadw Cerbydau** | 607 | -20 | 587 | 11 | 598 | 12 | 610 | 12 | 622 | 13 | 635 |
| 12 | **Costau Rhedeg Cerbydau** | 1,839 | 90 | 1,929 | 50 | 1,979 | 51 | 2,030 | 53 | 2,083 | 54 | 2,137 |
| 13 | **Lwfansau Car a Theithio** | 745 | 15 | 760 | 15 | 775 | 16 | 791 | 15 | 806 | 17 | 823 |
| 14 | **Uned Awyr** | 1,039 | -450 | 589 | 0 | 589 | 0 | 589 | 0 | 589 | 0 | 589 |
| 15 | **Offer** | 803 | 36 | 839 | 16 | 855 | 18 | 873 | 17 | 890 | 18 | 908 |
| 16 | **Dillad a Gwisgoedd** | 474 | 10 | 484 | 10 | 494 | 10 | 504 | 10 | 514 | 10 | 524 |
| 17 | **Argraffu a Nwyddau Swyddfa** | 414 | 8 | 422 | 8 | 430 | 9 | 439 | 9 | 448 | 9 | 457 |
| 18 | **TG a Chyfathrebu** | 9,701 | 105 | 9,806 | 120 | 9,926 | 208 | 10,134 | 213 | 10,347 | 219 | 10,566 |
| 19 | **Cynhaliaeth** | 326 | 7 | 333 | 6 | 339 | 6 | 345 | 6 | 351 | 7 | 358 |
| 20 | **Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill** | 7,507 | 13 | 7,520 | 117 | 7,637 | 121 | 7,758 | 125 | 7,883 | 96 | 7,979 |
| 21 | **Fforensig** | 1,025 | -285 | 740 | 14 | 754 | 15 | 769 | 16 | 785 | 16 | 801 |
| 22 | **Darpariaeth Gyfalaf** | 1,864 | 0 | 1,864 | 0 | 1,864 | 0 | 1,864 | 8 | 1,872 | 0 | 1,872 |
| 23 | **Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig** | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 |
| 24 | **Chwyddiant ac Arian At Raid** | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 |
| 25 | **Cronfa diogelwch cymunedol** | 1,262 | 205 | 1,467 | 0 | 1,467 | 0 | 1,467 | 0 | 1,467 | 0 | 1,467 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Gwariant Gros** | **160,303** | **3,341** | **163,644** | **3,744** | **167,388** | **3,184** | **170,572** | **3,256** | **173,828** | **3,279** | **177,107** |

| | | Cyllideb Flynyddol 2017-18 | + Cyn. - Gost. 2018-19 | Cyllideb Flynyddol 2018-19 | + Cyn. - Gost. 2019-20 | Cyllideb Flynyddol 2019-20 | + Cyn. - Gost. 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | + Cyn. - Gost. 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | + Cyn. - Gost. 2022-23 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Incwm** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | | | | | | | | | |
| 26 | **Secondiadau** | -4,748 | -353 | -5,101 | 0 | -5,101 | 0 | -5,101 | 0 | -5,101 | 0 | -5,101 |
| 27 | **Llog ar falansau** | -196 | 46 | -150 | 0 | -150 | 0 | -150 | 0 | -150 | 0 | -150 |
| 28 | **Incwm** | -3,120 | -133 | -3,253 | 0 | -3,253 | 0 | -3,253 | 0 | -3,253 | 0 | -3,253 |
| 29 | **Grantiau Penodol** | -9,247 | 453 | -8,794 | 53 | -8,741 | 52 | -8,689 | 53 | -8,636 | 53 | -8,583 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-17,311** | **13** | **-17,298** | **53** | **-17,245** | **52** | **-17,193** | **53** | **-17,140** | **53** | **-17,087** |
| | | | | | | | | | | | | |
| 30 | **Cronfa Wrth Gefn PFI** | 225 | -104 | 121 | -77 | 44 | -79 | -35 | -83 | -118 | 0 | -118 |
| 31 | **Cronfa wrth gefn Ymwybyddiaeth Cyflymder** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 32 | **Cyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Gwariant Net** | **143,217** | **3,250** | **146,467** | **3,720** | **150,187** | **3,157** | **153,344** | **3,226** | **156,570** | **3,332** | **159,902** |
| | | | | | | | | | | | | |
| 33 | Cyfanswm Grantiau | -71,728 | 0 | -71,728 | 0 | -71,728 | 718 | -71,010 | 710 | -70,300 | 703 | -69,597 |
| 34 | Praesept | -71,489 | -3,250 | -74,739 | -2,060 | -76,799 | -2,117 | -78,916 | -2,175 | -81,091 | -2,235 | -83,326 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyllid** | **-143,217** | **-3,250** | **-146,467** | **-2,060** | **-148,527** | **-1,399** | **-149,926** | **-1,465** | **-151,391** | **-1,532** | **-152,923** |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyllideb Net** | **143,217** | | **146,467** | | **150,187** | | **153,344** | | **156,570** | | **159,902** |
| | | | | | | | | | | | | |
| | Balans Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 1,660 | 1,660 | 1,758 | 1,758 | 1,761 | 1,761 | 1,800 | 1,800 |
| | **ACHOS SYLFAENOL - Cronnus** | **0** | | **0** | | **1,660** | | **3,418** | | **5,179** | | **6,979** |

| Costau Ychwanegol | | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Pwysau Costau Ychwanegol | | | | | |
| PEQF | | 576 | 1,278 | 2,493 | 3,168 |
| Twf – adolygiad ymchwiliadol | | 1,000 | 1,020 | 1,040 | 1,061 |
| Benthyca cyfalaf i ariannu strategaeth TG/Ystadau/Fflyd | | 0 | 400 | 400 | 400 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm gofynion ychwanegol** | | **1,576** | **2,698** | **3,933** | **4,629** |
| **Balans cronnus** | | **3,236** | **6,116** | **9,112** | **11,608** |
| Cynnydd blynyddol | | 3,236 | 2,880 | 2,996 | 2,496 |
| | | | | | |
| **Cynllun Arbedion Blynyddol** | | **2,532** | **1,575** | **1,625** | **1,700** |
| **Arbedion cronnus** | | **2,532** | **4,107** | **5,732** | **7,432** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y balans cronnus (praesept sydd ei angen)** | | **704** | **2,009** | 3,380 | **4,176** |
| **Praesept ychwanegol** | | **0** | **705** | **2,010** | **3,382** |
| **Swm blynyddol i'w gyllido gan y praesept** | | **704** | **1,304** | **1,370** | **794** |
| | | | | | |
| Cynnydd Treth y Cyngor wedi'i gynnwys yn y sylfaen % | 3.58 | 2.50 | 2.50 | 2.50 | 2.50 |
| Cynnydd Treth y Cyngor blynyddol ychwanegol % | 0.00 | 0.94 | 1.68 | 1.69 | 0.94 |
| **Cyfanswm cynnydd Treth y Cyngor %** | **3.58** | **3.44** | **4.18** | **4.19** | **3.44** |

# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 2018-19 hyd at 2022-23

Ionawr 2018

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021 a'r Blaenoriaethau Plismona y cytunwyd arnynt gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r Adnoddau sydd ar gael.

1.2 Mae'r CATC hwn yn gosod sefyllfa ariannol a gweithredol heriol dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r gyllideb wedi'i mantoli ac mae'r gwasanaeth wedi'i gynnal dros y cyfnod o galedi, gan gynnig sefyllfa gadarn ar gyfer y gyllideb sylfaenol a'r gronfa wrth gefn. Fodd bynnag, bydd y newid parhaus mewn galw a'r pwysau newydd o ran costau yn gofyn am fwy o arbedion effeithlonrwydd. Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u targedu i alluogi trawsnewid a blaenoriaethu pellach o ran y gweithlu er mwyn mynd i'r afael â'r newid mewn galw, ac mae ail-fuddsoddi'r arbedion effeithlonrwydd yn mynd i'r afael â gofynion cyfredol o fewn cyllidebau 2018-19. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHTh) wedi ystyried pob opsiwn ac wedi taro cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd i drethdalwyr lleol a sicrhau bod gan wasanaeth yr heddlu ddigon o gyllid, ac wedi cynnig codiad o £8.91 yn Nhreth y Cyngor, sy'n is na'r hyn a ragdybiwyd gan y Swyddfa Gartref, sef £12, ond sy'n darparu rhywfaint o adnoddau rheng flaen ychwanegol.

### 1.2 Nod

Nod y papur hwn yw rhoi manylion am sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer cynnal cyllideb fantoledig yn y tymor canolig a hwy, ar yr un pryd â chynnal perfformiad a sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

### 1.3 Cefndir

Mae Rhaglen Cyni Cyllidol y Llywodraeth, a gychwynnodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Y gostyngiad ariannol gwreiddiol y cynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghyllidebau'r Heddlu dros 4 blynedd (2011-12 hyd at 2014-15) Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) 2010 oedd 12%; y gostyngiad gwirioneddol mewn grantiau hyd ddiwedd 2017-18 fydd 21.51%. Dangosir y gostyngiad blynyddol mewn grantiau yn y tabl isod:


| Blwyddyn | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gostyngiad Grant Blynyddol | 5.14% | 6.70% | 1.60% | 3.12% | 5.11% | 0.57% | 1.40% |
| Effaith Gronnol | 5.14% | 11.50% | 12.91% | 15.63% | 19.94% | 20.40% | 21.51% |

1.4 Mae codiadau yn Nhreth y Cyngor wedi amrywio rhwng 2% a 4% dros yr un cyfnod. Gosododd y Comisiynydd gynnydd o 3.97% yn Nhreth y Cyngor yn 2017-18 yn dilyn toriad o 1.4% yn y grant a ddarparwyd. Mae effaith gyffredinol y cyllid oedd ar gael a'r pwysau chwyddiannol ac eraill wedi arwain at wneud £29.625m o doriadau i gyllidebau

dros gyfnod o 7 mlynedd. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o 20% yng nghyllidebau cyn caledi 2010-11. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

| Blwyddyn | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau a Wnaed | £4.678m | £6.016m | £4.634m | £4.325m | £4.448m | £2.838m | £2.686m | £29.625m |

1.5 Bydd toriadau gwerth £29.625m wedi'u gwneud erbyn diwedd 2017-18, gyda £4.5m wedi'i fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn termau real o 21% yng nghyfanswm y gyllideb dros gyfnod o 7 mlynedd. Mae'r siart isod yn dangos yn gryno ymhle y gwnaed yr arbedion.




1.6 Cynhaliodd y Llywodraeth ddau adolygiad sylweddol yn ystod haf 2015 gyda'r bwriad o bennu lefel grantiau'r Llywodraeth ar gyfer plismona ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Yn Adolygiad Gwariant 2015 (AG2015) edrychwyd ar ddyraniad cyllideb pob un o Adrannau'r Llywodraeth, gan gynnwys y cyfanswm oedd ar gael ar gyfer plismona. Arweiniodd canlyniad yr adolygiad hwnnw o wariant at y toriad o 0.6% i ddyraniad grant Heddluoedd yn 2016-17, gydag ymrwymiad i gyllid y dyfodol gael ei osod ar lefel a fydd yn golygu nad yw Heddluoedd yn wynebu toriadau ariannol ar yr amod bod comisiynwyr yr heddlu a throsedd yn codi Treth y Cyngor o ragdybiaeth o 2%. Disgwyliwyd y byddai hyn yn arwain at lefel debyg o doriad yn 2017-18 i'r hynny a gafwyd yn 2016-17; ond bu i'r Swyddfa Gartref gynyddu'r toriadau i grantiau'r Heddluoedd i 1.4% yn 2017-18, gan gadw'r symiau ychwanegol yn ganolog yn y Swyddfa Gartref.

1.7 Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad o Fformiwla Ariannu'r Heddlu yn 2015-16; mae'r fformiwla'n pennu sut y mae'r Swyddfa Gartref yn dosbarthu cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer plismona rhwng yr ardaloedd plismona. Cafodd yr adolygiad o'r Fformiwla ei ohirio ar ôl i Heddluoedd godi materion o ran cywirdeb y data a ddefnyddiwyd yn y fformiwla arfaethedig. Mae'r adolygiad wedi'i ailgychwyn gyda'r bwriad o roi fformiwla newydd ar waith yn 2018-19. Daeth yn amlwg yn 2017-18 na

fyddai fformiwla ariannu newydd yn cael ei defnyddio yn 2018-19. Mae disgwyl bellach i'r fformiwla gael ei hadolygu fel rhan o’r Adolygiad Gwariant yn 2020.

## 2. Y Broses Gynllunio

2.1 Caiff y broses o adnabod, cytuno ar a gweithredu arbedion ei sefydlu fel rhan o fusnes arferol. Llywodraethir hyn gan y Bwrdd Cynllunio Strategol. Eleni, bu i’r Bwrdd ystyried y cynllun arbedion a cheisiadau am gynnydd ac ar yr un pryd gysylltu ac ystyried nifer o adolygiadau maes gwasanaeth a gynhaliwyd. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad blynyddol o gyllidebau cyflogau ac ymarfer cyllidebu sylfaen sero ar gyllidebau TG, Cyfleusterau, Fflyd ac elfennau o’r cyllidebau Cyflenwadau a Gwasanaethau er mwyn cadarnhau’r arbedion yn y cynllun ac er mwyn ceisio dod o hyd i unrhyw arbedion pellach.

2.2 Rheolwyd y broses trwy dri o gyfarfodydd y Bwrdd Cynllunio Strategol Arbennig (BCSA) a gynhaliwyd. Yn y cyntaf ar 4 Awst 2017, gosodwyd egwyddorion ac amcanion y cylch cynllunio, sef:

- Canolbwyntio ar ail-fantoli ac ailddyrannu adnoddau
- Yr angen am dystiolaeth a chyfiawnhad ar gyfer unrhyw achos dros gynnydd
- Deall effaith gyfunedig yr adolygiadau cyfredol
- Dal canlyniad y buddsoddiad o gynigion am gynnydd 2017-18
- Gosod cyd-destun ar gyfer risg ac ansicrwydd
- Penderfynu/Arwain pa gynigion i’w datblygu ymhellach a’u cyflwyno fel cais am gynnydd ar gyfer gosod y brif gyllideb

2.3 Yn ychwanegol at yr uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol i ddatblygu gofynion cyllidebol y dyfodol ac mae’r manylion i’w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn. Wrth ddatblygu’r CATC hwn, ystyriwyd y canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel sydd wedi’u nodi yn y Cynllun Plismona ac yng Nghynllun Gweithredu drafft yr Heddlu 2018-19
- Pwysau newydd a rhai sy’n datblygu
- Y broses gynllunio strategol
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd gyfredol
- Amcangyfrif o’r adnoddau sydd ar gael i gyllido’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidebol am y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Materion Ariannol a’u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth Gefn a Balansau
- Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithredu

2.4 Bu i'r BCSA gyfarfod dair gwaith. Bu i'r ail gyfarfod ar 22 Medi ganolbwyntio ar adolygiadau penodol, arbedion a recriwtio. Gwnaed gwaith ychwanegol i sgorio a chynnal adolygiad gan gymheiriaid ar geisiadau am fuddsoddiad cyn cyfarfod olaf y BCSA ar 27 Tachwedd 2017 i ddod a phopeth ynghyd er mwyn fformiwleiddio cynnig y gyllideb.

2.5 Cwblhawyd y broses uchod erbyn diwedd Tachwedd 2017. Trafodwyd y cynigion gan Brif Swyddogion Cyllid y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar 4 Rhagfyr 2017. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 5 Rhagfyr i drafod cynigion y gyllideb. Cyhoeddwyd ffigyrau grant y Llywodraeth ar 19 Rhagfyr 2017. Cytunwyd ar y cynigion terfynol ar 20 Rhagfyr mewn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'i staff a Thîm y Prif Swyddog.

2.6 Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer Refeniw, Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn.

## 3. Cyllideb 2017-18

3.1 Torrwyd Cyllid y Llywodraeth 1.4% yn 2017-18; codwyd Treth y Cyngor 3.79%. Roedd cyfanswm y gyllideb, sef £143.217m, yn gynnydd ariannol o 1.52% ar gyllideb y flwyddyn flaenorol. Er mwyn mantoli cyllideb 2017-18, gwnaed £2.686m o doriadau. Mae'r rhain yn cyrraedd y targed i'w cyflawni a'r rhagamcan cyfredol yw y bydd tanwariant o £0.427yn erbyn y gyllideb wreiddiol; y rheswm am hyn yw bod rhai arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2017-18 wedi'u cyflawni'n gynnar. Mae manylion y toriadau i'w gweld isod:

| Arbedion a wnaed yn 2016-17 | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb TG | 550 |
| Adolygiad o Gyllid ac Adnoddau | 534 |
| Adolygiad o Wasanaethau Corfforaethol | 26 |
| Blaendrafodion Gweithredol Gwasanaethau Plismona Lleol | 81 |
| Blaendrafodion Gweithredol SCCH | 546 |
| Ystadau | 78 |
| Cerbydau a Chludiant | 240 |
| Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 196 |
| Blaendrafodion Cyfathrebu | 25 |
| Caffael | 25 |
| Swyddogion Cyswllt Ysgolion (Gostyngiad yn y grant) | 68 |
| Arbedion ychwanegol o ddiswyddiadau gwirfoddol 2015-16 | 317 |
| | |
| Cyfanswm | 2,686 |

3.2 Aethpwyd i'r afael â phwysau costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn; gwelwyd cynnydd mewn digwyddiadau mawr yn lleol ac yn genedlaethol yn hanner cyntaf 2017-18. Rhoddodd hyn bwysau ychwanegol ar adnoddau a chyllid mewn meysydd megis goramser. Arweiniodd y setliad cyflog ar gyfer Swyddogion yr Heddlu at gynnydd ychwanegol heb ei gyfuno o 1% mewn cyflogau am flwyddyn, gan ddisgwyl

setliad tebyg i staff. Mae cost ychwanegol y dyfarniad cyflog yn dod i gyfanswm o £0.945m. Mae'r pwysau hyn ac ail-aliniad y cyllidebau wedi'u cynnwys yn y rhagamcan cyfredol.

3.3 Bydd Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiadau blynyddol o sefyllfa ariannol yr Heddlu, y broses gynllunio, yr arbedion a wnaed eisoes a'r arbedion sydd eto i'w gwneud. Mae crynodeb o'r adolygiadau a'r archwiliadau hyn i'w weld isod.

3.4 Mae adolygiadau 'V*aluing the Police*' Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) wedi eu hymgorffori yn eu rhaglen adolygu newydd, sef adolygiadau PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Y cwestiwn cyffredinol mewn perthynas ag effeithlonrwydd a osodwyd gan AHGTAEM yw 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau?" gyda'r diffiniad o 'effeithlonrwydd' fel a ganlyn: 'bydd heddlu effeithlon yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.' Y tri chwestiwn sylfaenol i'r asesiad yw:

1. Pa mor dda y mae'r heddlu'n deall y galw arno?
2. Pa mor dda y mae'r heddlu'n defnyddio ei adnoddau?
3. Pa mor dda y mae'r heddlu'n cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol?

3.5 Caiff perfformiad heddluoedd ei raddio fel '*rhagorol*', '*da*', '*angen gwella*' neu '*annigonol*'. Nid oedd y raddfa gyffredinol wedi'i chyhoeddi adeg drafftio'r CATC hwn. Ar gyfer y cwestiwn am Effeithlonrwydd, nodwyd bod angen ei wella. Roedd y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn ymwneud â chydweddu'r adnoddau sydd ar gael â'r galw yn y dyfodol, gyda'r galw yn y dyfodol yn faes y nodwyd ei fod angen ei wella gan AHGTAEM. Nodwyd hyn fel maes i'w ddatblygu gan yr Heddlu; mae nifer o adolygiadau wrthi'n cael eu cynnal ar draws y meysydd gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach gyda gwaith yr Uned Galluogrwydd Galw. Rhoddwyd sylw i hyn fel rhan o'r broses gynllunio a bydd yn cael sylw cyson fel rhan o fusnes arferol. Bu i AHGTAEM nodi bod *'yr heddlu yn dda am barhau i wneud arbedion, sy'n golygu y gall fuddsoddi'n dda mewn seilwaith er mwyn gwneud arbedion ychwanegol yn y dyfodol.'*

Gellir gweld yr asesiad llawn yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/peel-assessments/peel-2017/north-wales/efficiency/

3.6 **Gwnaeth LlC y sylwadau canlynol am eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017:**

*'Rwy'n fodlon bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau priodol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'u hadnoddau'*

Gellir gweld y llythyr archwilio blynyddol yn:
http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Housing-Improvements/Home-Improvement-Loans.aspx

3.7 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y cyllidebau'n cael eu rheoli a bod yr Heddlu'n perfformio'n dda wrth wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, ond cytunodd AHGTAEM â dadansoddwr yr Heddluoedd bod cydweddu adnoddau'r dyfodol â'r galw amcanol yn y dyfodol yn faes y mae angen ei ddatblygu.

## 4. Dyraniadau Cyllid

4.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2018-19 fel rhan o setliad 2017-18. Fodd bynnag, nodwyd y byddai 'setliad digyfnewid' yn cael ei wneud yn 2018-19 fel ag yn 2017-18. Golyga 'setliad digyfnewid' na fydd yna ostyngiad ariannol cyffredinol cyn belled â bod CHTh yn cynyddu Treth y Cyngor o fewn y symiau a ganiateir (yn Lloegr) – dyma sut y disgrifiodd y prawf gwreiddiol hyn: *"o ystyried y cwmpas sydd gennych chi (CHTh) i godi Treth y Cyngor yn lleol, golyga hyn setliad digyfnewid gwirioneddol ar gyfer plismona'n gyffredinol."* Ar sail hyn, cynhwyswyd amcangyfrif o doriad o 1% yn CATC Ionawr 2017, oedd yn unol â'r cyfrifiadau a wnaed gan gynghorwyr Trysorydd cenedlaethol yr Heddlu.

4.2 Mewn gwirionedd, mae'r diffiniad hwn o 'setliad digyfnewid' yn doriad mewn termau real; nid yw'n darparu ar gyfer chwyddiant nac unrhyw ofynion newydd nac ychwanegol a wynebir gan Wasanaeth yr Heddlu. Nid yw peidio â chydnabod chwyddiant yn gynaliadwy, a byddai'n arwain at leihad parhaus yn yr adnoddau sydd ar gael. Ers 2017-18, mae'r Prif Gwnstabliaid a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cyflwyno achos i'r Swyddfa Gartref am gyllid ychwanegol.

4.3 Cyhoeddwyd cyllid 2018-19 ar 19 Rhagfyr 2017. Yr hyn a gyhoeddwyd oedd setliad ariannol digyfnewid, sef y bydd yr Heddluoedd yn derbyn yr un faint o grantiau craidd yn 2018-19 ag y gwnaethant yn 2017-18. Dyma'r tro cyntaf mewn 8 mlynedd i grantiau beidio â chael eu torri, er ei fod yn dal i fod yn ostyngiad mewn termau real gan nad yw'r setliad yn adlewyrchu chwyddiant.

4.4 Rhoddodd y setliad hefyd hyblygrwydd ychwanegol i Heddluoedd yn Lloegr gynyddu Treth y Cyngor Band D hyd at £12. Byddai hyn yn rhoi amrediad cynnydd yn Nhreth y Cyngor o rhwng 4.8% a 12.2% pe byddai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn cynyddu Treth y Cyngor o'r uchafswm o £12, gyda mwyafrif y cynyddiadau dros 6%. Penderfyniad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd unigol fydd cynyddu Treth y Cyngor yn ôl y symiau hyn neu beidio. Yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ddiffinio unrhyw gap ar Dreth y Cyngor, ac adeg ysgrifennu'r CATC hwn, nid oeddent wedi gwneud hynny. Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhagdybio y bydd yr holl Heddluoedd yn cynyddu Treth y Cyngor o £12 wrth gyfrifo'r swm ychwanegol posibl fydd ar gael i'r Heddluoedd, sef £450m.

4.5 Cododd cyfanswm cyllid yr Heddlu o fewn cyllideb y Swyddfa Gartref 1.58%, ond oherwydd bod peth cyllid wedi'i ddiogelu a bod cynnydd o 16% yn y symiau a frigdorrwyd i ariannu mentrau Heddlu'r Swyddfa Gartref, mae'r swm a ddyrannwyd i'r Heddluoedd wedi'i rewi. Mae manylion cyfanswm y cyllid ar gyfer Heddlu yn genedlaethol i'w gweld yn y tabl isod.

| | 2018-19 | Amr |
|---|---|---|
| | £m | % |
| | | |
| | | |
| Cyllid Llywodraeth Ganolog | **8,631** | **1.58%** |
| | | |
| Cronfa Trawsnewid ac arian arall a Ail-ddyrannwyd | **946** | **16.38%** |
| | | |
| Cyllid Uniongyrchol | 7,685 | 0.00% |
| sy'n cynnwys NICC (cyllid Capital City) o | 178 | 0.00% |
| sy'n cynnwys Cyllid Fformiwla o | 6,962 | 0.00% |
| sy'n cynnwys Grantiau Treth y Cyngor etifeddol o | 545 | 0.00% |
| | | |
| Cyfanswm Cyllid Canolog | **8,631** | **1.58%** |
| | | |
| Rhagdyb Praesept HO | 3,627 | 9.65% |
| | | |
| CYFANSWM (Cyllid Uniongyrchol a Praesept) | 11,312 | 2.91% |

4.6 Mae dadansoddiad o'r swm a frigdorrwyd i'w weld isod. Mae hyn yn gostwng y grant craidd a dderbyniwyd gan Ogledd Cymru o £9.5m, gyda chyfran fechan yn unig o hwnnw'n cael ei dderbyn fel cyllid ychwanegol neu fudd uniongyrchol.

| Cyllid yr Heddlu | 2017/18 (£m) | 2018/19 2018/19 (£ m) |
|---|---|---|
| sy'n cynnwys Ail-ddyraniadau ac addasiadau (b) | **812** | **945** |
| PFI | 73 | 73 |
| Rhaglenni technoleg yr Heddlu | 417 | 495 |
| Cyrff hyd braich | 54 | 63 |
| Cryfhau'r ymateb i Droseddu Cyfundrefnol | 28 | 42 |
| Cronfa trawsnewid yr Heddlu | 175 | 175 |
| Grant Arbennig | 50 | 93 |
| Mechnïaeth cyn cyhuddo | 15 | 4 |

4.7 Mae hyn yn welliant ar flynyddoedd blaenorol ac yn unol â'r disgwyl fel setliad ar gyfer 2018-19, ond mae'r holl arian ychwanegol sydd ar gael i'r Swyddfa Gartref ar gyfer

Plismona wedi'i gadw'n ganolog gan y Swyddfa Gartref (£134m). Mae'r swm ychwanegol rhagdybiedig sydd ar gael i'r Heddluoedd (£320m) wedi'i seilio ar gynyddu Treth y Cyngor £12 ym mhob un o ardaloedd yr Heddlu. Mae canlyniad y cyhoeddiad cyllido ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru i'w weld isod:

- Setliad arian digyfnewid ar gyfer holl ardaloedd yr heddlu. Golyga hyn y bydd Gogledd Cymru yn cael yr un faint o grant ag a gafodd yn 2017-18, sef £71.728m.
- Mae'r 'brigdorri' cyffredinol wedi cynyddu o £812m i £945m.
- Torrwyd y Grant Cyfalaf o £0.541m i £0.462m yn 2017-18, sef gostyngiad o £0.079m, yn dilyn gostyngiad o £0.360m yn y flwyddyn flaenorol. Disgwylir i'r ffigwr hwnnw gael ei rewi ar £0.462m ar gyfer 2018-19.
- Bydd heddluoedd Lloegr yn parhau i dderbyn nawdd treth cyngor etifeddol o £545m
- Mae'r Gweinidog Plismona wedi dynodi y bydd setliad 2019-20 yn debyg i setliad 2018-19.
- Bydd y fformiwla gyllido'n cael ei hadolygu eto yn ystod yr adolygiad o wariant nesaf yn 2020.

4.8 Ar sail cyhoeddiad eleni, amcangyfrifir y bydd y grantiau'n cael eu rhewi yn 2019-20, ond ar sail gofynion cyffredinol i wneud arbedion mewn gwariant cyhoeddus, mae'r cynllun yn cynnwys amcangyfrif o 1% o doriad pellach i grantiau ym mhob blwyddyn o 2020-21.

4.9 Bydd Fformiwla Gyllido'r Heddlu yn cael ei hadolygu fel rhan o'r adolygiad o wariant nesaf yn 2020. Golyga hyn bod yr ansicrwydd yn parhau o ran lefel y cyllid ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru nes y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar fformiwla gyllido ddiwygiedig. Bydd y cynnig yn cynnwys cynigion trawsnewid o ran sut i symud oddi wrth y dull dyrannu presennol at un diwygiedig. Dyma un o'r risgiau mwyaf i'r gyllideb o hyd; pe bai'r fformiwla bresennol yn cael ei defnyddio byddai'n golygu gostyngiad o £9.6m yn y grant a delir ar hyn o bryd fel 'grant llawr'.

## 5. Treth y Cyngor a'r Praesept

5.1 Mae dwy brif elfen i gyfanswm cyllideb net yr Heddlu, sef cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae cynnig y gyllideb yn cynnwys cynnydd o 3.58% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r Sylfaen Drethu ar gyfer Gogledd Cymru gyfan wedi codi 0.94%, sy'n golygu cynnydd cyffredinol o 4.55% yn y Praesept a chyfanswm cyllideb net o £146.467m i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd – gweler isod:

| | 2018-19 | |
|---|---|---|
| | | |
| | **£m** | **%** |
| **Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth** | 71.728 | 49% |
| | | |
| **Cyfanswm Praeseptau** | 74.739 | 51% |
| | | |
| **Cyfanswm Gofyniad y Gyllideb** | 146.467 | |
| | | |

5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm y gofyniad praesept gyda'r sylfaen drethu - y sylfaen drethu yw nifer yr eiddo cyfwerth â Band D sydd ym mhob un o ardaloedd yr Heddlu. Darperir y Sylfaen Drethu gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae'r sylfaen drethu ar gyfer 2017-18 wedi codi rhywfaint, o 0.94%. Golyga hyn bod y cynnydd canrannol yn y praesept ychydig yn uwch na'r cynnydd canrannol yn Nhreth y Cyngor.

5.3 Mae'r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, a elwir yn 'reolau capio', yn wahanol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ogystal, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr wedi gallu parhau i gael gafael ar grantiau ar wahân os oeddent yn cytuno i gyfyngu'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor mewn blynyddoedd blaenorol. Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol oedd yn arfer talu am y rhain, ond maent bellach wedi'u cydgrynhoi yng ngrant y Swyddfa Gartref, gan ddod i gyfanswm o £545m yn 2017-18. Gogledd Cymru sydd â'r gyfradd Treth y Cyngor uchaf yng Nghymru a Lloegr, ond pe byddai Grantiau Treth y Cyngor etifeddedig yn cael eu hystyried, Gogledd Cymru fyddai'r 4ydd uchaf.

5.4 Mae rheolai capio Lloegr wedi cael eu cyhoeddi; fel y disgrifiwyd uchod, mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr hyblygrwydd i gynyddu Treth y Cyngor £12. Byddai hyn yn rhoi amrediad o godiadau rhwng 5.34% (Surrey) a 12.2% (Northumbria), yn dibynnu ar lefel gyfredol Treth y Cyngor.

5.5 Nid oes unrhyw reolau capio wedi'u cyhoeddi yng Nghymru. Yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi herio codiadau is na 5%. Nid oes Grant Lleihau Treth y Cyngor ar gael yng Nghymru.

5.6 Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhagdybio y bydd pob un o ardaloedd yr Heddlu yn codi Treth y Cyngor £12 ac y byddai'r sylfaen drethu'n cynyddu 1.34% yn Lloegr a 0.8% yng Nghymru er mwyn gwneud y cyfanswm ychwanegol posibl sydd ar gael, sef £450m, a gyhoeddwyd fel rhan o setliad cyllideb yr Heddlu. Pe bai hyn yn cael ei gymhwyso'n

llawn, byddai'n symudiad pellach mewn cyllido cenedlaethol o grantiau cenedlaethol i drethdalwyr lleol.

## 6. Y Gyllideb ar gyfer 2018-19 a'r Gyllideb Gynlluniedig ar gyfer 2019-10 hyd at 2022-23

6.1 Mae crynodeb o'r Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2018-19 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad B.

6.2 Dyma'r prif ragdybiaethau a nodwyd yn y CATC blaenorol:

- 1% o chwyddiant cyflog blynyddol o fis Medi ymlaen
- 2% o chwyddiant cyffredinol, chwyddiant penodol yn cael ei gymhwyso lle bo'n hysbys
- Cynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor yn 2017-18 a 2.5% o 2018-19 hyd at 2021-22
- Gostyngiadau grant o 1.4% yn 2017-18 a gostyngiad o 1% ar gyfer y blynyddoedd dilynol
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2018-19 ymlaen
- Sy'n rhoi sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant Gros | 159,673 | 161,342 | 163,586 | 165,449 | 167,438 |
| Incwm a Chronfeydd wrth Gefn | -16,456 | -16,461 | -16,486 | -16,512 | -16,595 |
| | | | | | |
| Gwariant Net | 143,217 | 144,881 | 147,100 | 148,937 | 150,843 |
| | | | | | |
| Grant | -71,728 | -71,011 | -70,301 | -69,598 | -68,902 |
| Praesept | -71,489 | -73,460 | -75,484 | -77,565 | -79,703 |
| | | | | | |
| Cyfanswm Cyllid | -143,217 | -144,471 | -145,785 | -147,163 | -148,605 |
| Diffyg cyn cymryd camau cywiro | 0 | 410 | 1,315 | 1,774 | 2,238 |
| Diffyg blynyddol sylfaenol | | **410** | **905** | **459** | **464** |

6.3 Mae'r holl ragdybiaethau hyn wedi'u hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Cynhaliwyd adolygiad manwl o ffigurau'r gyllideb. Mae chwyddiant ar gyfer 2017-18 wedi'i osod ar darged y Llywodraeth o 2%. Cafodd chwyddiant ei asesu ym mhob maes, gan arwain at gynnydd cyffredinol o £0.166m o'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd cynnydd ychwanegol mewn yswiriant a chynyddrannau.

6.4 Mae codiadau cyflog y sector cyhoeddus wedi'u capio ar 1% ers nifer o flynyddoedd. Y setliad ym mis Medi 2017 ar gyfer Swyddogion yr Heddlu, gyda chynnig tebyg ar y bwrdd i Staff, oedd dyfarniad cyflog cyfunol o 1%, gyda dyfarniadau cyflog heb eu cyfuno o 1% i'w talu am 12 mis. Mae popeth yn dynodi y bydd dyfarniadau cyflog yn y dyfodol yn uwch na'r 1% cyfredol a amcangyfrifir. O fis Medi 2018 ymlaen, amcangyfrifir bellach y bydd dyfarniadau cyflog yn 2% bob blwyddyn. Dangosir amcangyfrif o gost yr 1% ychwanegol yn y tabl isod, ac er dibenion enghreifftiol, dangosir y cynnydd cyfatebol yn Nhreth y Cyngor i dalu am hyn. Effaith flynyddol lawn 15 dyfarniad cyflog ychwanegol yw £1.2m, sy'n gyfwerth â chynnydd o 1.5% yn Nhreth y Cyngor neu gynnydd o 1.7% mewn Grant.

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Swm blynyddol** | 0 | 679 | 1,188 | 1,221 | 1,259 | 1,259 |
| **Symiau cronnol** | 0 | 679 | 1,867 | 3,088 | 4,347 | 5,641 |
| **Cynnydd TyC cyfatebol** | | 0.94% | 1.59% | 1.57% | 1.55% | 1.53% |

6.5 Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi'u nodi mewn adrannau blaenorol, a bydd adran 8 yn cofnodi risgiau'r dyfodol. Un maes risg ar gyfer y dyfodol yw Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (FfCAH). Bwriad y fframwaith hwn yw arwain at gael Cymwysterau Plismona ar safon gradd/ôl-radd. O ran costau, bydd cost ychwanegol am ffioedd dysgu/hyfforddwyr mewnol ychwanegol, tynnu swyddogion ychwanegol o'u swyddi yn ystod y flwyddyn gyntaf a hefyd yn ystod 2il a 3ydd blwyddyn newydd yr hyfforddiant. Mae 3 dull mynediad i FfCAH, sef cwrs ôl-raddedig 2 flynedd, cwrs israddedig 3 blynedd sy'n arwain at radd (ill dau ar gyfer unigolion sy'n Swyddogion Heddlu cyflogedig), ac yn drydydd, gradd mewn Plismona mewn sefydliad addysgol i unigolion nad ydynt wedi'u cyflogi fel Swyddogion Heddlu. Mae'r costau a'r cyfraddau tynnu swyddogion o'u swyddi yn dal i fod wrthi'n cael eu cwblhau, ond mae'r amcangyfrifon canlynol wedi'u cynnwys yn y CATC, wedi'u seilio ar gyfraddau recriwtio cyfredol a'r amcangyfrif o'r Swyddogion ychwanegol fydd yn cael eu defnyddio i lenwi pan fydd swyddogion wedi'u tynnu o'u swyddi.

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Swyddogion Blwyddyn 1af ar Brawf** | 0 | 576 | 576 | 576 | 576 |
| **Ffioedd Dysgu** | 0 | 0 | 324 | 972 | 1,458 |
| **30% swyddogion i lenwi** | 0 | 0 | 378 | 945 | 1,134 |
| **Cyfanswm** | | 576 | 1,278 | 2,493 | 3,168 |
| **Cynnydd TyC Cyfatebol** | | 0.77% | 0.90% | 1.50% | 0.80% |

6.6 Mae’r Rhaglen Gyfalaf gyfredol yn tynnu at ei therfyn, wedi’i hariannu’n bennaf o gronfeydd wrth gefn. Mae strategaethau Ystadau, TG a Fflyd ar gyfer y dyfodol yn cael eu gosod, gan arwain at ofynion buddsoddi newydd. Nid yw Grantiau Cyfalaf yn ddigon i ariannu traean o’r Rhaglen Amnewid Cerbydau flynyddol; dim ond un waith y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae amcangyfrif o £0.4m wedi'i gynnwys mewn amcangyfrifon o 2020-21 er mwyn ariannu buddsoddiad cyfalaf trwy fenthyca. Bydd y penderfyniadau terfynol ynglŷn â hyn yn cael eu seilio ar achosion busnes, ond mae’n ddarbodus cynnwys swm yn yr amcangyfrifon gan nad oes unrhyw ffynhonnell newydd arall o gyllid cyfalaf.

6.7 Mae grantiau wedi’u rhewi ar gyfer 2018-19, a rhagdybir (ar sail cyhoeddiad y Gweinidog Plismona) y byddant yn parhau i gael eu rhewi yn 2019-10. Mae gostyngiad o 1% wedi’i gynnwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod oherwydd yr ansicrwydd cyffredinol yn yr economi a'r nod y mae'r Llywodraeth wedi'i datgan o fantoli'r diffyg sector cyhoeddus blynyddol. Mae amcangyfrif o 0.25% o gynnydd yn y sylfaen drethu wedi’i gynnwys yn y ffigurau.

6.8 **Buddsoddiad ac Adolygiadau –** Mae’r cylch cynllunio ar gyfer 2017-18 yn cynnwys adolygiadau o wasanaethau sy’n cwmpasu 41% o’r Heddlu, sy'n gyfanswm o £50m o wariant staff. Roedd y rhain yn cynnwys Adnoddau Patrôl a’r cyswllt gyda’r Uned Adnoddau Rheoli (UARh), Adnoddau Ymchwiliol, Plismona’r Ffyrdd, Gwasanaethau Fforensig, y Ddalfa, AD, Prosiectau a Gwasanaethau Glanhau. Mae’r adolygiadau hyn oll wedi cyrraedd gwahanol gamau; mae’r UARh wedi’i roi ar waith ond nid yw’r Adolygiad Ymchwiliol ond wedi adrodd ar ei ganfyddiadau cychwynnol. Bydd yr adolygiadau hyn ac ymchwil pellach wedi’i seilio ar dystiolaeth yn helpu’r Heddlu i ganfod arbedion effeithlonrwydd a lle mae angen buddsoddi.

6.9 Mae’r buddsoddiad twf a nodwyd ar gyfer 2018-19 yn cymryd y cam cyntaf tuag at y gofynion ymchwiliol ychwanegol a amlygwyd yn ogystal â gosod y seilwaith er mwyn galluogi trawsnewid pellach wedi'i seilio ar dystiolaeth i fodloni'r newid mewn galw a ragwelir yn y dyfodol. Mae buddsoddiad yn cael ei wneud, dros dro am ddwy flynedd i gychwyn, mewn gwella seilwaith swyddogaeth cynllunio corfforaethol a datblygu dull wedi'i seilio ar dystiolaeth o ddyrannu adnoddau. Bydd hyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio yn y dyfodol er mwyn i’r Heddlu ganfod newid mewn galw cyn gynted ag y bo modd, ond hefyd gall amlygu arbedion lle bo'r galw wedi gostwng neu lle bo arbedion effeithlonrwydd wedi’u clustnodi, gan ailddyrannu i feysydd eraill os yw’r galw’n cynyddu.

6.10 Roedd cyswllt rhwng yr adolygiadau Ymateb a UARh gan y byddai’r UARh yn cael ei ariannu’n rhannol drwy dorri i lawr ar swyddogion ymateb wrth i’r galw leihau. Fodd bynnag, oherwydd bod y setliad grant yn well na’r disgwyl, nid oedd angen lleihau nifer y swyddogion ymateb fel y disgwyliwyd. Bydd grant ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gyllido 15 o Swyddogion o fewn yr UARh yn hytrach na lleihau nifer y swyddogion ymateb i gyllido’r UARh. Bydd dyraniad cyffredinol Swyddogion i wahanol feysydd yn ganolog i’r adolygiadau wedi’u seilio ar dystiolaeth fydd yn cael eu cynnal yn ystod 2018-19.

6.11 Dangosir crynodeb o’r twf parhaol a dros dro yn y tabl isod. O hyn, bydd £0.762m yn cael ei gyllido drwy godi Treth y Cyngor yn uwch na’r cynnydd o 2.5% a ragdybiwyd yn y CATC blaenorol, gyda’r gweddill yn cael ei gyllido o ailddyrannu adnoddau a ryddhawyd drwy gyflawni’r cynllun arbedion. Cafodd 62 o gynigion am gynnydd eu dadansoddi, eu sgorio a’u hadolygu gan gymheiriaid, gan arwain at gyflwyniad gwreiddiol o £2.384m cylchol a £4.098m dros dro/cyfalaf; cafodd y rhain eu gostwng yn sylweddol i’r ffigurau a ddangosir yn y tabl isod.

| Tabl Crynodeb o’r Cynigion | Cymeradwyaeth Arfaethedig Cyllid Cylchol | Cymeradwyaeth Arfaethedig Cyllid Anghylchol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Adnoddau Ymchwiliol | £838,899 | £247,856 | £1,086,755 |
| Datblygiadau Digidol a Thechnoleg | £58,501 | £874,811 | £933,312 |
| Plismona ar sail Tystiolaeth | £121,090 | £597,446 | £718,536 |
| Gwasanaethau Galluogi a Seilwaith | £98,369 | £311,605 | £409,974 |
| Cefnogi ein Gweithlu | £104,603 | £215,118 | £319,721 |
| Ymrwymiadau CHTh | £258,000 | £0 | £258,000 |
| Cyfanswm | £1,479,462 | £2,246,836 | £3,726,298 |

- **Adnoddau Ymchwiliol -** Bydd yr Adnoddau Ymchwiliol ychwanegol yn darparu ymchwilwyr ychwanegol ymysg Swyddogion a Staff fel Dadansoddwyr Cudd-wybodaeth**.** Mae hyn o ganlyniad i’r galw newidiol a’r gofynion a amlygwyd gan yr Adolygiad Ymchwiliol, a bydd yn rhoi 20 o adnoddau ymchwiliol ychwanegol. Caiff hyn ei ariannu’r rhannol gan y cynnydd ychwanegol y cytunwyd arno yn y praesept o’r CATC blaenorol.
- **Datblygiadau Digidol a Thechnoleg -** Bydd hyn yn darparu technoleg symudol ychwanegol ar gyfer staff y rheng flaen a’r cymwysiadau i’w cysylltu â’r systemau gweithredol.
- **Plismona ar sail Tystiolaeth -** Bydd hyn yn darparu’r seilwaith a’r staff i ddatblygu ymhellach yr adolygiadau wedi’u seilio ar dystiolaeth a gynhaliwyd, adolygu meysydd eraill a chysylltu’r adolygiadau.
- **Gwasanaethau Galluogi a Seilwaith -** Bydd y maes hwn yn cynnwys gofynion ychwanegol a amlygwyd yn yr Adran Safonau Proffesiynol a system Rheoli Risg a Phrojectau.
- **Cefnogi ein Gweithlu -** Mae’r buddsoddiad hwn yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi’r cynnydd mewn mannau eraill.
- **Ymrwymiadau CHTh -** Mae hwn yn gynnydd o £0.2m yn y Gronfa Diogelwch Cymunedol i’w dargedu tuag at y Prosiect Pathfinder i Ferched gyda 1.5 o swyddi Comisiynu ychwanegol o fewn Swyddfa CHTh.

**6.12 Arbedion -** Daeth y cynllun arbedion yn y CATC blaenorol i gyfanswm o £5.3m dros gyfnod o 5 mlynedd o 2017-18. O hyn, torrwyd £2.686m o'r gyllideb yn 2017-18. Roedd y cynllun yn cynnwys £1.025m o arbedion yn 2018-19. Mae’r pwysau ariannol cynyddol o ganlyniad i chwyddiant cyflogau ychwnaegol, FfCAH a gofynion newydd wedi’i gwneud yn ofynnol ailosod y cynllun arbedion. Y cyfanswm sydd wedi’i gynllunio ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yw £8.885m (2018-19 hyd at 2022-23).

6.13 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae blynyddoedd 1 a 2 y cynllun wedi'u datblygu'n dda. Mae'r arbedion a gymerwyd o symiau cyllideb 2018-19 yn dod i gyfanswm o £1.453m, sydd wedi galluogi rhywfaint o ail-fuddsoddiad fel y disgrifiwyd uchod. Mae cynllun 2019-20 yn gyfuniad o'r cynllun blaenorol a symiau ychwanegol i'w clustnodi i gael eu hail-fuddsoddi mewn adnoddau ymchwiliol pellach (£1m). Bydd y symiau ychwanegol a glustnodir o 2020-21 ymlaen yn seiliedig ar waith i'w gyflawni gan yr Uned Gofynion a Gallu a Datblygiad Corfforaethol, gan adeiladau ar y gwaith a wnaed eisoes. Dangosir manylion y cynllun pum mlynedd isod.

| Cynllun Arbedion 2017-18 hyd at 2022-23 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Contractau TG | | | 75 | 75 | | 150 |
| Cyllid ac Adnoddau | 19 | | | | | 19 |
| Gwasanaethau Glanhau | | 75 | | | | 75 |
| B Blaendrafodion Gweithredol SCCH | | 557 | | | | 557 |
| Adolygiad Ystadau | | 125 | 125 | | | 250 |
| Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 450 | | | | | 450 |
| B Blaendrafodion Cyfathrebu | 71 | | | | | 71 |
| Gwaith Fforensig | 25 | 100 | | | | 125 |
| Contract Fforensig | 275 | | | | | 275 |
| Adolygiad o Ddarpariaeth Feddygol yr Heddlu | 75 | 125 | | | | 200 |
| Contractau Caffael | 40 | 100 | | | | 140 |
| PFI | | 300 | | | | 300 |
| Cyfandaliad Pensiynau Staff yr Heddlu | 70 | | | | | 70 |
| Uned Galluogrwydd Galw (Moderneiddio Gweithlu/Digidol) ac Adolygiadau | | 150 | 1,375 | 1,550 | 1,700 | 4,775 |
| Ailddyrannu i gyllido'r Adolygiad Ymchwiliol | | 1,000 | | | | 1,000 |
| Adolygiad o'r Gyllideb | 250 | | | | | 250 |
| Disodli Niche | 100 | | | | | 100 |
| Lleihau Arolygon | 34 | | | | | 34 |
| Trwyddedu Oracle | 44 | | | | | 44 |
| Arbedion Arfaethedig | 1,453 | 2,532 | 1,575 | 1,625 | 1,700 | 8,885 |

6.14 Effaith gyffredinol yr arbedion a wnaed, chwyddiant a'r buddsoddiadau a wnaed a'r gofynion newydd yw cynnydd o 2.27% yn y gyllideb ar gyfer 2018-19. Ceir crynodeb o hyn yn y tabl isod.

| | 2017-18 | 2018-19 | % Newid |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | |
| Gwariant Gros | 160,303 | 163,644 | 2.16% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Incwm a Chronfeydd wrth Gefn** | -17,086 | -17,177 | -2.05% |
| | | | |
| **Gwariant Net** | 143,217 | 146,467 | 2.27% |
| | | | |
| **Grant** | -71,728 | -71,728 | -0.00% |
| **Praesept** | -71,489 | -74,739 | 4.55% |
| | | | |
| Cyfanswm Cyllid | **-143,217** | **-146,467** | **2.27%** |
| | | | |

6.15 Ceir crynodeb o'r newid cyffredinol yn y gyllideb yn y tabl isod.

| | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Net 2017-18 | **143.217** |
| **Chwyddiant Cyflog** | 1.883 |
| **Chwyddiant ac Eithrio Cyflog** | 0.645 |
| **Adnoddau ymchwiliol a gyllidir gan y praesept** | 0.762 |
| **Wedi'u hailddosbarthu ar gyfer twf** | 0.717 |
| **UARh/Ymateb a gyllidir gan Grant** | 0.696 |
| **Arbedion a wnaed** | -1.453 |
| Cyllideb Net 2017-18 | **146.467** |

6.16 Mae gwaith pellach wedi'i wneud ar gyllidebau rhagamcanol o 2019-20 hyd at 2022-23, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r cyllidebau rhagamcanol diwygiedig ar gyfer y cyfnod o 2017-18 hyd at 2021-22 i'w gweld isod. Mae cynllun arbedion heriol o £7.4m wedi'i osod ar gyfer y cyfnod o 2019-10 hyd at 2022-23. Dan amgylchiadau arferol, byddai hyn yn ddigon i fantoli'r gyllideb a chaniatáu ar gyfer rhywfaint o ail-fuddsoddiad, ond oherwydd y disgwyliad am ddyfarniadau tâl uwch heb eu hariannu gan grantiau mwy, FfCAH a chostau cyfalaf, byddai angen cynnydd o rhwng 3.44% a 4.19% yn Nhreth y Cyngor. Bydd y rhagamcanion hyn yn cael eu mireinio wrth i ni gael gwybodaeth fwy manwl. Ceir crynodeb yn y tabl isod, gyda'r manylion yn Atodiad B.

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant Gros | 167,388 | 170,572 | 173,828 | 177,107 |
| Incwm a Chronfeydd wrth Gefn | -17,201 | -17,228 | -17,258 | -17,205 |
| Gwariant sylfaen gros | **150,187** | **153,344** | **156,570** | **159,902** |
| | | | | |
| Grant | -71,728 | -71,010 | -70,300 | -69,597 |
| Praesept @ 2.5% o gynnydd TyC | -76,799 | -78,916 | -81,091 | -83,326 |
| Amcangyfrif o gyfanswm y cyllid | -148,527 | -149,926 | -151,391 | -152,923 |
| Diffyg cyn camau unioni | **1,660** | **3,418** | **5,179** | **6,979** |
| | | | | |
| Diffyg blynyddol sylfaenol | **1,660** | **1,758** | **1,761** | **1,800** |
| | | | | |
| Codiadau blynyddol ychwanegol posibl | | | | |
| Adolygiad Ymchwiliol | 1,000 | 20 | 20 | 21 |
| FfCAH | 576 | 702 | 1,215 | 675 |
| Cyfalaf | | 400 | 0 | 0 |
| Diffyg diwygiedig cyn camau unioni | 3,236 | 2,880 | 2,996 | 2,614 |
| | | | | |
| Cynllun Arbedion Blynyddol | -2,532 | -1,575 | -1,625 | -1,700 |
| Balans i'w gyllido o'r Praesept | **704** | **1,305** | **1,371** | **914** |
| Cynnydd TyC sydd ei angen | **3.44%** | **4.18%** | **4.19%** | **3.44%** |
| Cynnydd TyC Band D | £8.88 | £11.16 | £11.65 | £9.97 |
| sy'n cynnwys | | | | |
| 1% yn ychwanegol o gyflog | **1.59%** | **1.56%** | **1.54%** | **1.51%** |
| Darpariaeth Cyfalaf a FfCAH | **0.77%** | **0.90%** | **1.48%** | **0.79%** |

## 7. Risgiau

7.1 Roedd lefel yr ansicrwydd wrth osod cyllidebau 2018-19 wedi gostwng ers y blynyddoedd blaenorol, ac er na chafwyd unrhyw fanylion meintiol ar setliad 2018-19, dynodwyd proses debyg i'r llynedd. Fodd bynnag, roedd y setliad dros dro yn well na'r disgwyl gan i'r grant gael ei rewi yn hytrach na'i dorri. Cyhoeddwyd hyn fel rhan o'r cyhoeddiad grant ar 19 Rhagfyr 2017. Nododd y cyhoeddiad hefyd grant wedi'i rewi ar gyfer 2019-20, ond fel y gwelwyd yn y blynyddoedd diweddar, gall hyn newid hyd at y cyhoeddiad terfynol a wneir ym mis Rhagfyr bob blwyddyn fel arfer. Daw hyn ag ansicrwydd i'r broses.

7.2 Un o'r risgiau mwyaf dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yw'r fformiwla gyllido oherwydd y sensitifrwydd a'r ansicrwydd o amgylch y fformiwla newydd. Yn y ffigurau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref yn ystod adolygiad 2015-16, gwelwyd dyraniad Gogledd Cymru'n cynyddu o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm; roedd hyn yn gyfwerth â £2m o gyllid ychwanegol. Dangosodd amcangyfrifon a ddarparwyd wedyn gan Ddyfnaint a Chernyw bod dyraniad Gogledd Cymru'n gostwng £14.5m, sy'n dangos sensitifrwydd unrhyw newidiadau. Mae'r Swyddfa Gartref bellach wedi dynodi y bydd y fformiwla'n cael ei hadolygu fel rhan o'r adolygiad o wariant nesaf yn 2020.

7.3 Mae yna risgiau cenedlaethol a lleol newydd yn codi y mae'n rhaid darparu adnoddau ar eu cyfer, megis Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Throseddau Seibr. Gwnaed dyraniadau ychwanegol yn y blynyddoedd diweddar, ond mae'r rhain yn feysydd sy'n drwm ar adnoddau a bydd angen eu hasesu ymhellach yn y dyfodol. Yn lleol, bydd datblygiad y Carchar yn Wrecsam a Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa B yn creu galw am adnoddau plismona. Yn ogystal, mae asiantaethau eraill y sector cyhoeddus yn gweld gostyngiad yn eu cyllidebau, allai hefyd gynyddu'r galw ar wasanaeth yr heddlu.

7.4 Mae datblygiadau cenedlaethol megis FfCAH, y manylwyd arno mewn adrannau blaenorol, yn creu risgiau ariannol a gweithredol. Bwriadwyd i'r system newydd ar gyfer Cyfathrebiadau'r Heddlu (ESN) gyflawni arbedion, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau ac mae oedi wedi arwain at gostau ychwanegol allai gael eu hariannu'n ganolog neu beidio.

7.5 Mae'r cynlluniau ar gyfer arbedion 2017-18 wedi'u sefydlu ac yn cael eu rhoi ar waith; ond mae'r arbedion posibl yn 2018-19 eto i gael eu cyflawni. Mae'r cynlluniau hyn yn aeddfed ac mae disgwyl i'r arbedion hyn gael eu cyflawni o fewn y flwyddyn. Mae cynlluniau y tu hwnt i 2018-19 wrthi'n cael eu datblygu. Nid yw'r holl arbedion o fewn rheolaeth yr Heddlu, er enghraifft, bydd yr arbedion cydweithredol yn dibynnu ar heddluoedd a sefydliadau eraill.

7.6 Mae'r amcangyfrif o'r toriadau sydd eu hangen wedi'i seilio ar ragdybiaethau cynllunio bod y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn cael eu cytuno. Pe byddai hyn yn cael ei ostwng, byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad o £0.721m yn ychwanegol i'r cyllidebau.

7.7 Mae'r Swyddfa Gartref wedi brigdorri'r symiau a ddyrannir i ardaloedd yr Heddlu yn y blynyddoedd diweddar er mwyn ariannu unedau a mentrau cenedlaethol. Cynyddwyd y brigdorri 16% yn 2018-19. Gallai unrhyw fentrau newydd arwain at fwy o frigdorri.

7.8 Gellid gwneud toriadau pellach os bydd yr hinsawdd economaidd yn gwaethygu. Mae pob toriad o 1% yn ychwanegol i'r Cyllid Grant Cyffredinol yn ostyngiad ariannol o £0.717m.

7.9 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau, mae unrhyw newidiadau bychain i godiadau cyflog, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol, Ardoll Prentisiaethau neu unrhyw wariant arall sy'n ymwneud â chyflogau yn gallu cael effaith anghymesur ar y gyllideb. Fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol, mae cynnydd o 1% mewn cyflogau yn cael effaith dros y flwyddyn gyfan o £1.2m yn ychwanegol mewn costau. Gan fod grantiau naill ai'n cael eu torri neu eu rhewi, fel sydd wedi digwydd eleni, rhaid i gost codiadau cyflog ddod o Dreth y Cyngor neu ei ariannu gan doriadau. Mae risg peidio â chydnabod chwyddiant fel rhan o setliad y Llywodraeth yn sylweddol. Mae chwyddiant wedi'i gynnwys yn ffigurau'r Swyddfa Gartref, ond mae'r rhain wedi'u brigdorri i gyllido costau canolog yn 2018-19.

7.10 Mae chwyddiant wedi bod yn isel yn y blynyddoedd diweddar ac mae rhagdybiaethau'r gyllideb wedi'u newid i adlewyrchu hynny. Ond gallai hyn newid, yn enwedig mewn meysydd megis tanwydd ac ynni, lle gall prisiau fod yn gyfnewidiol iawn.

7.11 Mae'r tabl isod yn amlygu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau.

| Sensitifrwydd y prif newidynnau | £m |
|---|---|
| **1% o newid yn Nhreth y Cyngor** | 0.721 |
| **1% o newid mewn grant** | 0.717 |
| **1% o newid mewn cyflogau** | 1.221 |
| **1% o newid mewn chwyddiant cyffredinol** | 0.420 |
| **1% o ostyngiad mewn incwm a grantiau penodol** | 0.170 |

## 8. Cronfeydd wrth Gefn

8.1 Mae dyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau fod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau cyllido a rhagamcanu y manylir arnynt uchod, mae angen i'r Comisiynydd ddarparu ar gyfer risg gwariant (gwario dros y gyllideb) a digwyddiadau mawr, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau annisgwyl eraill sy'n gostus. Mae elfen o'r risg hon wedi'i rheoli trwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn, trwy'r cyllidebau wrth gefn. Mae'r rhain wedi'u gostwng ac mae cyfran fwy o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn.

8.2 Caiff y Cronfeydd wrth Gefn eu hadolygu fel rhan o'r broses o osod cyllideb, ac eto fel rhan o gynhyrchu Datganiad Cyfrifon. Cafodd y cronfeydd wrth gefn eu hailddyrannu fel rhan o'r CATC diwethaf, felly nid ydynt wedi cael eu hailddyrannu fel rhan o'r CATC hwn. Caiff y cronfeydd wrth gefn eu hadolygu eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

8.3 Bwriedir gostwng y cronfeydd wrth gefn o £38.1m i £19.1m dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd mwyafrif y gostyngiad hwn yn digwydd yn 2017-18 wrth i'r Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf gael eu defnyddio i gyllido buddsoddiadau ystadau Wrecsam a Llandudno. Mae buddsoddiadau pellach o gronfa wrth gefn Rheoli Newid yn cael eu cynllunio er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol dros y ddwy flynedd nesaf. Ceir disgrifiad o bob cronfa wrth gefn ar ddiwedd yr adran.

8.4 Fel rhan o setliad y gyllideb, nododd y Gweinidog Plismona y bydd canllawiau newydd ar dryloywder cronfeydd wrth gefn yn cael eu cyhoeddi. Disgwylir y bydd y manylion a welir isod, sydd wastad wedi'u cynnwys yn y CATC a'r Datganiad Cyfrifon, yn bodloni'r gofynion hyn. Mae'r Cyd Bwyllgor Archwilio hefyd wedi adolygu'r cronfeydd wrth gefn a'r cynllun cysylltiedig.

8.5 Bydd defnydd o'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar benderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r setliadau refeniw terfynol, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun cyfredol ar sut y gellid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd orau i gefnogi darpariaeth y gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Lle nad yw'r defnydd o'r Gronfa wrth Gefn yn hysbys (fel gyda'r Gronfa Digwyddiadau Mawr), ni ddangosir newidiadau. Dangosir manylion sefyllfa ragamcanol y Cronfeydd wrth Gefn ar ddiwedd pob blwyddyn yn y tabl isod.

| Sefyllfa'r Gronfa wrth Gefn | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio* | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | 3.663 | 1.829 | 2.068 | 1.494 | 1.217 | 1.217 |
| **Balans Cronfa Gyffredinol** | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| **Cronfeydd wrth Gefn Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd (manylion isod)** | 29.256 | 16.526 | 13.609 | 12.853 | 12.818 | 12.700 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio | **38.108** | **23.544** | **20.866** | **19.536** | **19.224** | **19.106** |

| **Cronfeydd wrth gefn Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **31.3.17** | **31.3.18** | **31.3.19** | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** |
| | | | | | | |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Buddsoddiad Cyfalaf** | 12.090 | 0.448 | 0.448 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Digwyddiad Mawr** | 2.435 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 |
| **Cronfa wrth Gefn Pensiwn ar sail Afiechyd** | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 |
| **Cronfa Wrth Gefn Yswiriant** | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 |
| **Cronfa Wrth Gefn PFI** | 3.987 | 4.212 | 4.333 | 4.377 | 4.342 | 4.224 |
| **Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau** | 1.659 | 0.962 | 0.962 | 0.962 | 0.962 | 0.962 |
| **Rheoli Newid** | 5.921 | 5.543 | 2.505 | 2.153 | 2.153 | 2.153 |
| **Cronfa wrth Gefn Partneriaethau** | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 | 0.500 |
| **Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd** | 0.276 | 0.276 | 0.276 | 0.276 | 0.276 | 0.276 |
| **Cronfa wrth Gefn Gyfreithiol Swyddfa CHTh** | 0.041 | 0.041 | 0.041 | 0.041 | 0.041 | 0.041 |
| **Cyllideb Gyfranogol Swyddfa CHTh** | 0.002 | 0.002 | 0.002 | 0.002 | 0.002 | 0.002 |
| **Cronfa wrth Gefn Swyddfa CHTh** | 0.257 | 0.257 | 0.257 | 0.257 | 0.257 | 0.257 |
| **Cyfanswm** | **29.256** | **16.526** | **13.609** | **12.853** | **12.818** | **12.700** |

**8.6** **Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf (Cyfalaf) -** I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau a seilwaith yr Heddlu er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaethau a lleihau gwariant refeniw.

**Cronfa wrth Gefn Digwyddiadau Mawr (Risg) –** I'w defnyddio yn achos Digwyddiad Mawr sydd angen adnoddau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sydd ar gael o fewn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi galluogi gostwng y Gyllideb wrth gefn Digwyddiadau Mawrth.

**Cronfa wrth Gefn Pensiwn ar sail Afiechyd (Risg) –** Rhaid i'r Heddlu dalu swm untro sy'n gyfwerth â dwywaith cyflog swyddog am bob Ymddeoliad ar sail Afiechyd. Mae dal y Gronfa wrth Gefn wedi lleihau'r angen am y gyllideb mewn refeniw.

**Yswiriant (Risg) –** Mae hyn yn ymwneud â Chynllun Trefniant Municipal Mutual Insurance Limited, allai arwain at daliad olaf o tua £0.432m, am hawliadau anhysbys sy'n codi a hawliadau anhysbys yn y dyfodol a amlygir gan y Brocer Yswiriant.

**Cronfa wrth Gefn PFI (Refeniw a Glustnodwyd) –** Mae angen hon gan fod y cyllid ar gyfer PFI gan y Llywodraeth yn lleihau bob blwyddyn; bydd y gronfa yn y pen draw yn lleihau dros oes y contract PFI.

**Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw a Glustnodwyd) –** I gyllido gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a diogelwch ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

**Rheoli Newid (Refeniw a Glustnodwyd) –** Angen Buddsoddiad i hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hwy.

**Cronfa wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw a Glustnodwyd) –** Balansau a gedwir ar gyfer Partneriaethau penodol fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw rhag ofn i gyllid gael ei dynnu'n ôl, fyddai'n arwain at gostau ychwanegol.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw a Glustnodwyd) –** I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.

**Cronfa wrth Gefn Swyddfa CHTh (Refeniw a Glustnodwyd) -** cronfa wrth gefn Swyddfa CHTh; cronfa wrth gefn gyfreithiol a chyllideb gyfranogol.

## 9. Cyfalaf

9.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol, sydd wedi'i datblygu ers 2013-14, yn tynnu at ei therfyn. Erbyn diwedd 2018-19, bydd y canlynol wedi'i gyflawni:

- 4 cyfleuster mawr newydd yn Llangefni, Llandudno a Wrecsam (2 adeilad newydd)
- 20 adnewyddiad ac ail-leoliad
- Parhad y Rhaglen Amnewid Cerbydau
- Uwchraddio'r Rhwydwaith, Gweinyddwyr, Byrddau Gwaith a dyfeisiau Symudol a disodli systemau Technoleg yr Ystafell Reoli.

9.2 Mae ar asedau a seilwaith yr Heddluoedd angen buddsoddiad parhaus er mwyn sicrhau arferion gwaith effeithlon a modern. Mae strategaethau ar gyfer Ystadau, TG a Fflyd yn cael eu diweddaru a byddant yn bwydo datblygiad Rhaglen Gyfalaf newydd dros y 12 mis nesaf. Mae amcan symiau wedi'u cynnwys ar gyfer datblygiadau'r dyfodol; bydd y rhain yn destun Achosion Busnes cyn y ceir cymeradwyaeth i fynd ymlaen.

9.3 Bydd Rhaglen 2018-19 yn gweld cwblhau Dalfa Wrecsam, DHQ a chyfleusterau Trefol; dyma'r prosiect mwyaf y mae Heddlu Gogledd Cymru erioed wedi'i gynnal. Bydd y rhaglenni disodli Fflyd a TG yn parhau ac fel rhan o'r broses osod cyllideb, cytunwyd ar y buddsoddiadau canlynol fel rhan o'r broses o alluogi newid.

| Disgrifiad | Gosod Cyllideb 27.11.17 Cyllid Anghylchol | Categori cysylltiedig â'r Strategaeth Gorfforol |
|---|---|---|
| Dyfeisiau Symudol Cam 2 | £256,000 | Datblygiadau Digidol a Thechnoleg |
| Mewnrwyd | £120,000 | Datblygiadau Digidol a Thechnoleg |
| Storfa Cwmwl | £79,000 | Datblygiadau Digidol a Thechnoleg |
| Ap Ymatebwr Symudol | £268,000 | Datblygiadau Digidol a Thechnoleg |
| Disodli EIS/BO | £327,433 | Plismona ar sail Tystiolaeth |
| Meddalwedd Llywodraethu | £30,000 | Gwasanaethau Galluogi a Seilwaith |
| TCC yn y Ddalfa | £75,000 | Gwasanaethau Galluogi a Seilwaith |
| | | |
| Cyfanswm | £1,155,433 | |

9.4 Mae'r rhaglen yn fforddiadwy ac wedi'i hariannu o gyfuniad o grantiau, cronfeydd wrth gefn, cyfraniadau refeniw uniongyrchol a benthyca. Y strategaeth gyffredinol yw lleihau'r benthyca a chynyddu'r symiau a gyllidebir mewn refeniw trwy ddefnyddio cyfraniad refeniw uniongyrchol a derbyniadau cyfalaf, sydd yn ei dro yn lleihau taliadau llog.

9.5 Dangosir y ffigurau cyfalaf yn Atodiad C; bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol fel rhan o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cod Materion Ariannol.

**9.6 Rhaglen Gyfalaf 2017-18 hyd at 2022-23**

| **Gwariant** | **£m** |
|---|---|
| Ystadau | 27.033 |
| Cerbydau ac Offer | 9.099 |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 8.681 |
| Cyfanswm | **44.813** |

| **Cyllid** | |
|---|---|
| Grantiau | 2.772 |
| Cyfraniad Refeniw | 7.795 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 13.882 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 6.505 |
| Benthyca - Ystadau | 9.607 |
| Benthyca - Rhaglen Disodli TG | 4.252 |
| Cyfanswm | **44.813** |

## 10 Crynodeb

10.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn dros y 5 mlynedd nesaf. Disgwylir y bydd toriadau pellach mewn grantiau, ond bod y toriadau'n debygol o fod yn llai nag yng nghyfnod cychwynnol y Rhaglen Cyni Cyllidol.

10.2 Mae mwy o bwysau o ran cost o ganlyniad i chwyddiant a'r gofynion newydd yn arwain at ddiffyg mwy na'r CATC blaenorol. Mae hyn yn dilyn ymlaen o gyfnod o saith mlynedd lle gwnaed £29.6m o arbedion mewn cyllidebau. Mae'r gofynion sy'n amlygu ar adnoddau gweithredol hefyd yn ychwanegu at y pwysau ariannol.

10.3 Bydd y pedair blynedd nesaf yn rhai heriol iawn yn ariannol ac yn galw am gydbwysedd rhwng blaenoriaethu gofynion, arbedion, buddsoddiadau mewn rhai meysydd a chodiadau rhesymol yn Nhreth y Cyngor. Ystyriwyd pob opsiwn, gan gydbwyso fforddiadwyedd i'r trethdalwr lleol â sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i fodloni'r gofynion. Ni chymerwyd yr opsiwn o gynyddu treth y cyngor £12 fel y rhagdybiwyd gan y Swyddfa Gartref. Dilynwyd dull cytbwys. Buddsoddwyd cronfeydd wrth gefn yn y seilwaith i ganfod arbedion effeithlonrwydd y gellir eu cymryd fel arbedion neu eu hail-fuddsoddi yn y gwasanaeth, gan osod cyllideb ar yr un pryd sy'n gynaliadwy ac yn gadarn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

## Atodiad A

## Y Strategaeth Ariannol

**Amcanion Strategol Ariannol:**

- Blaenoriaethu adnoddau er mwyn unioni cynlluniau gwariant â gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac amcanion strategol y Prif Gwnstabl fel y nodwyd yn y Cynllun Plismona
- Cynnal sefyllfa gyllidebol fantoledig a sefydlu cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth trwy'r cyfnod hwn o lai o gyllid
- Rhoi gwerth am arian i drethdalwyr lleol
- Defnyddio uniondeb, pwyll a rheolaeth ariannol gadarn
- Darparu fframwaith cadarn i helpu gyda'r broses wneud penderfyniadau
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel addas ac ar yr un pryd, mynd i lefel gynaliadwy yn unig o ddyled
- Adolygu cyllidebau yn barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu ar amcanion allweddol

Er mwyn cyflawni'r amcanion strategol, ymgymerir â chynllunio yn y meysydd canlynol:

**Cynllunio Busnes a Chorfforaethol**

- Integreiddio cynllunio gweithredol ac ariannol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Strategol a chydweddu adnoddau ag amcanion corfforaethol
- Cynhyrchu cynllun ariannol ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf fydd yn ymgorffori prosiectau cyfalaf a refeniw mawr yr Heddlu a strategaethau TG ac Ystadau, a darparu cyllid cynaliadwy dros y tymor byr a chanolig
- Cynhyrchu cyllideb cyfalaf a refeniw flynyddol fanwl sy'n gymorth i drefnu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol

**Rheoli Risg - Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau**

- Cynnal cronfeydd wrth gefn a darpariaethau digonol i sicrhau bod y rhaglen bolisi tymor canolig yn gynaliadwy ac y gellir ei chyflawni
- Ceisio mantoli'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar ddefnyddio'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol
- Cynnal y 3 lefel o gydnerthedd trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau:

    1. Rheoli'r Gyllideb yn Flynyddol
    2. Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd, gan gynnwys y Gronfa wrth Gefn Digwyddiadau Mawr
    3. Cronfa wrth Gefn Gyffredinol o rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net

**Rheoli Risg – Fframwaith Rheoli Ariannol**

- Cynnal fframwaith rheoli ariannol sy'n allweddol i gynnal safonau stiwardiaeth a gweinyddiad ariannol effeithiol. Caiff hyn ei sicrhau drwy'r canlynol:

  Cadw at y Rheolau a'r Rheoliadau Statudol
  Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref
  Cod Llywodraethu Corfforaethol
  Nodiadau Polisïau a Gweithdrefnau
  Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog
  Polisi Rheoli'r Trysorlys a chadw at y Cod Materion Ariannol
  Gweithredu argymhellion Archwiliadau Mewnol ac Allanol
  Rheoli Risg
  Codau Ymddygiad Proffesiynol

- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau a symud tuag at brosesu electronig llawn

- Unioni cyfrifoldeb ariannol ar y lefel weithredol gyda'r rheolaeth neu'r dylanwad rheoli priodol

- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir a diweddar ar gael i alluogi defnyddwyr i'w ddefnyddio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

**Atodiad B**

## Cyllideb Refeniw 2017-18 hyd at 2022-23

| | | Blynyddol Cyllideb 2017-18 | +'Cyn -' Gost 2018-19 | Blynyddol Cyllideb 2018-19 | +'Cyn -' Gost 2019-20 | Blynyddol Cyllideb 2019-20 | +'Cyn -' Gost 2020-21 | Blynyddol Cyllideb 2020-21 | +'Cyn -' Gost 2021-22 | Blynyddol Cyllideb 2021-22 | +'Cyn -' Gost 2022-23 | Cylli Flyn 202 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£00** |
| 1 | **Cyflog Swyddogion yr Heddlu** | 73,921 | 1,150 | 75,071 | 2,248 | 77,319 | 1,566 | 78,885 | 1,597 | 80,482 | 1,620 | 8 |
| 2.1 | **Cyflog Staff yr Heddlu** | 34,847 | 2,375 | 37,222 | 798 | 38,020 | 814 | 38,834 | 831 | 39,665 | 849 | 4 |
| 2.2 | **SCCH** | 6,775 | 118 | 6,893 | 69 | 6,962 | 70 | 7,032 | 70 | 7,102 | 71 | |
| 3.1 | **Goramser Swyddogion yr Heddlu** | 1,989 | 24 | 2,013 | 20 | 2,033 | 20 | 2,053 | 21 | 2,074 | 21 | |
| 4 | **Goramser Staff yr Heddlu** | 400 | 8 | 408 | 4 | 412 | 4 | 416 | 4 | 420 | 4 | |
| 5 | **Lwfansau** | 1,713 | -223 | 1,490 | -23 | 1,467 | -20 | 1,447 | -21 | 1,426 | -20 | |
| 6 | **Hyfforddiant** | 676 | 13 | 689 | 14 | 703 | 14 | 717 | 15 | 732 | 14 | |
| 7 | **Gweithwyr Eraill** | 694 | 14 | 708 | 15 | 723 | 14 | 737 | 15 | 752 | 15 | |
| 8 | **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol** | 3,164 | 63 | 3,227 | 65 | 3,292 | 66 | 3,358 | 67 | 3,425 | 68 | |
| 9 | **Costau Ynni** | 1,116 | -67 | 1,049 | 32 | 1,081 | 32 | 1,113 | 33 | 1,146 | 35 | |
| 10 | **Costau Rhedeg Adeiladau** | 6,602 | 132 | 6,734 | 135 | 6,869 | 138 | 7,007 | 140 | 7,147 | 143 | |
| 11 | **Cynnal a Chadw Cerbydau** | 607 | -20 | 587 | 11 | 598 | 12 | 610 | 12 | 622 | 13 | |
| 12 | **Costau Rhedeg Cerbydau** | 1,839 | 90 | 1,929 | 50 | 1,979 | 51 | 2,030 | 53 | 2,083 | 54 | |
| 13 | **Lwfansau Car a Theithio** | 745 | 15 | 760 | 15 | 775 | 16 | 791 | 15 | 806 | 17 | |
| 14 | **Uned Awyr** | 1,039 | -450 | 589 | 0 | 589 | 0 | 589 | 0 | 589 | 0 | |
| 15 | **Offer** | 803 | 36 | 839 | 16 | 855 | 18 | 873 | 17 | 890 | 18 | |
| 16 | **Dillad a Gwisgoedd** | 474 | 10 | 484 | 10 | 494 | 10 | 504 | 10 | 514 | 10 | |
| 17 | **Argraffu a Deunyddiau Ysgrifennu** | 414 | 8 | 422 | 8 | 430 | 9 | 439 | 9 | 448 | 9 | |
| 18 | **TG a Chyfathrebu** | 9,701 | 105 | 9,806 | 120 | 9,926 | 208 | 10,134 | 213 | 10,347 | 219 | 1 |
| 19 | **Cynhaliaeth** | 326 | 7 | 333 | 6 | 339 | 6 | 345 | 6 | 351 | 7 | |
| 20 | **Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill** | 7,507 | 13 | 7,520 | 117 | 7,637 | 121 | 7,758 | 125 | 7,883 | 96 | |
| 21 | **Gwaith Fforensig** | 1,025 | -285 | 740 | 14 | 754 | 15 | 769 | 16 | 785 | 16 | |
| 22 | **Darpariaeth Cyfalaf** | 1,864 | 0 | 1,864 | 0 | 1,864 | 0 | 1,864 | 8 | 1,872 | 0 | |
| 23 | **Arian at Raid ar gyfer Sefyllfaoedd Arbennig** | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | |
| 24 | **Chwyddiant ac Arian at Raid** | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 | 0 | |
| 25 | **Cronfa Diogelwch Cymunedol** | 1,262 | 205 | 1,467 | 0 | 1,467 | 0 | 1,467 | 0 | 1,467 | 0 | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Gwariant Gros** | **160,303** | **3,341** | **163,644** | **3,744** | **167,388** | **3,184** | **170,572** | **3,256** | **173,828** | **3,279** | **17** |

| | | Blynyddol | +'Cyn | Blynyddol | +'Cyn | Blynyddol | +'Cyn | Blynyddol | +'Cyn | Blynyddol | +'Cyn | Cyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyllideb | -' Gost | Cyllideb | -' Gost | Cyllideb | -' Gost | Cyllideb | -' Gost | Cyllideb | -' Gost | Flynydd |
| | | 2017-18 | 2018-19 | 2018-19 | 2019-20 | 2019-20 | 2020-21 | 2020-21 | 2021-22 | 2021-22 | 2022-23 | 2022-2 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Incwm** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | | | | | | | | | |
| 26 | **Secondiadau** | -4,748 | -353 | -5,101 | 0 | -5,101 | 0 | -5,101 | 0 | -5,101 | 0 | -5,1 |
| 27 | **Llog ar Falansau** | -196 | 46 | -150 | 0 | -150 | 0 | -150 | 0 | -150 | 0 | -1 |
| 28 | **Incwm** | -3,120 | -133 | -3,253 | 0 | -3,253 | 0 | -3,253 | 0 | -3,253 | 0 | -3,2 |
| 29 | **Grantiau Penodol** | -9,247 | 453 | -8,794 | 53 | -8,741 | 52 | -8,689 | 53 | -8,636 | 53 | -8,5 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-17,311** | **13** | **-17,298** | **53** | **-17,245** | **52** | **-17,193** | **53** | **-17,140** | **53** | **-17,0** |
| | | | | | | | | | | | | |
| 30 | **Cronfa wrth Gefn PFI** | 225 | -104 | 121 | -77 | 44 | -79 | -35 | -83 | -118 | 0 | -1 |
| 31 | **Cronfa wrth Gefn Ymwybyddiaeth Cyflymder** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| 32 | **Ychwanegol o Gronfeydd wrth Gefn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Gwariant Net** | **143,217** | **3,250** | **146,467** | **3,720** | **150,187** | **3,157** | **153,344** | **3,226** | **156,570** | **3,332** | **159,9** |
| | | | | | | | | | | | | |
| 33 | Cyfanswm Grantiau | -71,728 | 0 | -71,728 | 0 | -71,728 | 718 | -71,010 | 710 | -70,300 | 703 | -69,5 |
| 34 | Praesept | -71,489 | -3,250 | -74,739 | -2,060 | -76,799 | -2,117 | -78,916 | -2,175 | -81,091 | -2,235 | -83,3 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyllid** | **-143,217** | **-3,250** | **-146,467** | **-2,060** | **-148,527** | **-1,399** | **-149,926** | **-1,465** | **-151,391** | **-1,532** | **-152,9** |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyllideb Net** | **143,217** | | **146,467** | | **150,187** | | **153,344** | | **156,570** | | **159,9** |
| | | | | | | | | | | | | |
| | Diffyg blynyddol sylfaenol | 0 | 0 | 0 | 1,660 | 1,660 | 1,758 | 1,758 | 1,761 | 1,761 | 1,800 | 1,8 |
| | **Diffyg cyn camau unioni** | **0** | | **0** | | **1,660** | | **3,418** | | **5,179** | | **6,9** |

| Costau Ychwanegol | | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Pwysau Costau Ychwanegol | | | | | |
| FfCAH | | 576 | 1,278 | 2,493 | 3,168 |
| Twf – Adolygiad Ymchwiliol | | 1,000 | 1,020 | 1,040 | 1,061 |
| Benthyca Cyfalaf i gyllido strategaeth TG/Ystadau/Fflyd | | 0 | 400 | 400 | 400 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm gofynion ychwanegol** | | **1,576** | **2,698** | **3,933** | **4,629** |
| **Balans cronnol** | | **3,236** | **6,116** | **9,112** | **11,608** |
| **Cynnydd blynyddol** | | 3,236 | 2,880 | 2,996 | 2,496 |
| | | | | | |
| **Cynllun Arbedion Blynyddol** | | **2,532** | **1,575** | **1,625** | **1,700** |
| **Arbedion cronnol** | | **2,532** | **4,107** | **5,732** | **7,432** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Balans Cronnol (Angen Praesept)** | | **704** | **2,009** | **3,380** | **4,176** |
| **Praesept Ychwanegol** | | **0** | **705** | **2,010** | **3,382** |
| **Swm blynyddol i gyllido o'r praesept** | | **704** | **1,304** | **1,370** | **794** |
| | | | | | |
| **Codiad Treth y Cyngor wedi'i gynnwys yn y sylfaen %** | 3.58 | 2.50 | 2.50 | 2.50 | 2.50 |
| **Codiad Treth y Cyngor blynyddol ychwanegol %** | 0.00 | 0.94 | 1.68 | 1.69 | 0.94 |
| **Cyfanswm codiad Treth y Cyngor %** | **3.58** | **3.44** | **4.18** | **4.19** | **3.44** |

**Atodiad C**

**<u>Rhaglen Gyfalaf 2016-17 hyd at 2021-22</u>**

| | | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2017-23 | 201 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwariant | | | | | | | | |
| Cyf | Disgrifiad | blynyddoedd | Ref | Amc | Amc | Amc | Amc | Amc | Cyfanswm | Cyfa |
| | | blaenorol | Ion-18 | Ion-18 | Ion-18 | Ion-18 | Ion-18 | Ion-18 | Cyllideb | Pros |
| | | prosiectau | gyda | | | | | | | |
| | | byw | d/y | | | | | | | |
| | | yn unig | | | | | | | | |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £0 |
| | | | | | | | | | | |
| | **<u>Rhaglen Ystadau</u>** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 1 | Taliadau Cadw, Ymgynghoriaeth a QS | 0 | 25 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 35 | |
| 2 | Gwelliannau Cynaliadwyedd | 499 | 129 | 100 | 100 | 0 | 0 | 0 | 329 | |
| 3 | Swyddfeydd Porthaethwy | 0 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | |
| 4 | Dalfa newydd Wrecsam a DHQ | 4,810 | 13,613 | 2,877 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16,490 | 2 |
| 5 | Cyfleuster canol tref Wrecsam | 70 | 1,798 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,798 | |
| 6 | Adleoli Saltney | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | |
| 7 | Adleoli Bwcle | 1 | 55 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 55 | |
| 8 | Adeilad Newydd Llandudno | 1,500 | 1,250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,250 | |
| 9 | Adleoli Conwy | 2 | 0 | 345 | 0 | 0 | 0 | 0 | 345 | |
| 10 | Porthladd Caergybi | 190 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | |
| 11 | Adnewyddu'r Ffreutur | 0 | 0 | 134 | 0 | 0 | 0 | 0 | 134 | |
| 12 | Adleoli UIG | 187 | 41 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 41 | |
| 13 | Adolygiad Ystadau 2 | 0 | 0 | 0 | 1,175 | 1,609 | 1,897 | 1,620 | 6,301 | |
| 14 | TCC yn y Ddalfa | 0 | 0 | 75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 75 | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **7,259** | **16,991** | **3,636** | **1,280** | **1,609** | **1,897** | **1,620** | **27,033** | **3** |
| | | | | | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | Gwariant blynyddoedd blaenorol prosiectau byw yn unig £000 | 2017-18 Ref Ion-18 gyda d/y £000 | 2018-19 Amc Ion-18 £000 | 2019-20 Amc Ion-18 £000 | 2020-21 Amc Ion-18 £000 | 2021-22 Amc Ion-18 £000 | 2022-23 Amc Ion-18 £000 | 2017-23 Cyfanswm Cyllideb £000 | 20 Cy Pro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **<u>Cerbydau ac Offer Arall</u>** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 15 | Rhaglen Disodli Prynu Ceir | 6,420 | 1,661 | 1,573 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 8,434 | |
| 16 | Cerbydau PSU (Rhaglen ddisodli) | 555 | 0 | 0 | 0 | 0 | 555 | 0 | 555 | |
| 17 | TCC ac ANPR ac offer Porthladdoedd | 119 | 110 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 110 | |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cerbydau ac Offer Arall** | **7,094** | **1,771** | **1,573** | **1,300** | **1,300** | **1,855** | **1,300** | **9,099** | |
| | | | | | | | | | | |
| | **<u>Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</u>** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 18 | Disodli Bwrdd Gwaith | 791 | 460 | 300 | 300 | 300 | 300 | 300 | 1,960 | |
| 19 | Disodli Technoleg yr Ystafell Reoli | 667 | 2,044 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,044 | |
| 20 | Disodli Gweinydd | 672 | 0 | 0 | 0 | 0 | 700 | 0 | 700 | |
| 21 | Gweinyddion Systemau Busnes | 135 | 0 | 0 | 0 | 0 | 145 | 0 | 145 | |
| 22 | Prosiect Cyfiawnder Troseddol Digidol | 590 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 | |
| 23 | Dyfeisiau data symudol | 529 | 271 | 256 | 460 | 0 | 0 | 460 | 1,447 | |
| 24 | Disodli Airwave ESN | 62 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | |
| 25 | TG a Chysylltiad Carchar Wrecsam | 73 | 42 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 42 | |
| 26 | Disodli Gweinydd DFU | 0 | 268 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 268 | |
| 27 | Mewnrwyd | 0 | 0 | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 120 | |
| 28 | Storfa Cwmwl | 0 | 0 | 79 | 0 | 0 | 0 | 0 | 79 | |
| 29 | Ap Ymatebwr Symudol | 0 | 0 | 268 | 0 | 0 | 0 | 0 | 268 | |
| 30 | Disodli EIS | 0 | 328 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 328 | |
| 31 | Meddalwedd Llywodraethu | 0 | 0 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm TG a Chyfathrebu** | **3,519** | **3,663** | **1,053** | **1,760** | **300** | **1,145** | **760** | **8,681** | |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **17,872** | **22,425** | **6,262** | **4,340** | **3,209** | **4,897** | **3,680** | **44,813** | |

| | | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2017-23 | 2013-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |
| **Cyf** | **Disgrifiad** | | **Ref** | **Amc** | **Amc** | **Amc** | **Amc** | **Amc** | **Cyfanswm** | |
| | | | **Ion-18** | **Ion-18** | **Ion-18** | **Ion-18** | **Ion-18** | **Ion-18** | **Cyllideb** | |
| | | | **gyda** | | | | | | | |
| | | | **d/y** | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | |
| | | | | | | | | | | |
| | **Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| 32 | Grantiau Cyfalaf Cyffredinol y Swyddfa Gartref | | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 2,772 | |
| 33 | Cyfraniad Refeniw | | 1,502 | 1,212 | 1,243 | 1,272 | 1,283 | 1,283 | 7,795 | |
| 33 | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | | 12,433 | 1,001 | 448 | 0 | 0 | 0 | 13,882 | |
| 34 | Derbyniadau Cyfalaf | | 3,133 | 2,843 | 252 | 0 | 277 | 0 | 6,505 | |
| 35 | Benthyca ar gyfer Ystadau | | 4,164 | 188 | 1,175 | 1,175 | 1,730 | 1,175 | 9,607 | |
| 36 | Benthyca ar gyfer Rhaglenni Disodli | | 731 | 556 | 760 | 300 | 1,145 | 760 | 4,252 | |
| | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyllid** | | **22,425** | **6,262** | **4,340** | **3,209** | **4,897** | **3,680** | **44,813** | |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | 22/01/18 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Panel Heddlu a Throsedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Dawn Hughes, Uwch-Swyddog Cymorth i Banel yr Heddlu a Throsedd |
| **TESTUN:** | Protocol Diwygiedig – Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **ADRODDIAD EITHRIEDIG:** | Heb ei eithrio |

## 1. CRYNODEB A PHWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1 Ystyried protocol diwygiedig ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, wedi'i atodi yn Atodiad 1.

1.2 Mae'r protocol wedi'i ddiwygio i roi mwy o eglurder ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau, y broses ar gyfer cwestiynau atodol a'r broses ar gyfer cwestiynau sy'n debyg iawn i gwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod o fewn y chwe mis blaenorol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Cymeradwyo'r protocol diwygiedig ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

3.1 Mae'r protocol wedi'i adolygu i roi mwy o eglurder ar y dyddiad cau i gyflwyno cwestiynau i Banel yr Heddlu a Throsedd – mae bellach yn dweud 10 diwrnod <u>gwaith</u>, yn hytrach na 10 diwrnod.

3.2 Mae'r protocol wedi'i ddiwygio ymhellach i gadarnhau mai Aelod o'r Panel Heddlu a Throsedd yn unig all ofyn cwestiwn atodol.

3.3 Os oes cwestiynau'n cael eu cyflwyno i Banel yr Heddlu a Throsedd, sy'n ymddangos fel eu bod yn debyg iawn i gwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod o fewn y chwe mis blaenorol, mae'r protocol wedi'i ddiwygio fel y bydd holl Aelodau'r Panel yn penderfynu a ddylid derbyn y cwestiynau ai peidio.

## 4. DEWISIADAU

4.1 Dewis 1 – cymeradwyo'r protocol diwygiedig i sicrhau bod eglurder ar gyfer y cyhoedd, Aelodau'r Panel a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 Dewis 2 – peidio â diwygio'n protocol.

4.3 Mae'r swyddogion yn argymell cymeradwyo Dewis 1.

## 5. YMGYSYLLTU/YMGYNGHORI

5.2 Ymgynghorwyd ag Aelodau'r Panel, a oedd yn cefnogi cyflwyno protocol diwygiedig i'w ystyried.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Dim.

## 7. DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL

7.1 Mae'r protocol yn rhoi cyfleoedd cyfranogi ar lefel leol a chymunedol.

## 8. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

8.1 Dim.

## 9. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

9.1 Bydd y protocol diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd.

## 10. GOBLYGIADAU O RAN RISG

10.1 Bydd y protocol diwygiedig yn lleihau'r risg y bydd y broses o gyflwyno cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael ei dehongli'n wahanol.

**Papurau Cefndir:**
Amh.

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Protocol ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

**CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

O fis Medi 2015, bydd Panel yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd neu Banel Aelodau, y gellir eu cyflwyno i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Panel Heddlu a Throsedd.

Gweler y Weithdrefn isod am fwy o wybodaeth am sut i gyflwyno cwestiwn yn y cyfarfodydd hyn.

1. Rhaid cyflwyno'r cwestiynau i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 10 diwrnod gwaith neu fwy cyn i'r Panel Heddlu a Throsedd gwrdd. Anfonwch neges e-bost gyda'ch cwestiwn i panel.heddlu@conwy.gov.uk neu anfonwch y cwestiwn i: Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU.

2. Bydd cwestiynau a gyflwynwyd 10 diwrnod gwaith neu fwy cyn cyfarfod y Panel Heddlu a Throsedd yn cael eu gofyn yn y cyfarfod hwnnw, yn amodol ar y weithdrefn a nodir isod. Ni fydd unrhyw gwestiwn sy'n cael ei dderbyn lai na 10 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Panel yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod, oni bai ym marn yr Awdurdod Cynnal (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) bod y cwestiwn yn ymwneud ag eitem ar raglen cyfarfod y Panel Heddlu a Throsedd ar ôl i'r cwestiwn cael ei gyflwyno neu, ei fod yn fater brys y dylid ei dderbyn yn y cyfarfod.

3. Er mwyn i gwestiwn gael ei dderbyn, **mae'n rhaid iddo**:

   - Ymwneud â swyddogaethau strategol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (gan gynnwys y Cynllun Heddlu a Throsedd) ac **ni ddylai** ymwneud ag unrhyw achosion 'byw' neu reolaeth weithredol Heddlu Gogledd Cymru.

     (*Bydd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â rheolaeth weithredol Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at Swyddfa'r Prif Gwnstabl, a fydd yn ymdrechu i ymateb yn unol â'r arfer – rhoddir gwybod i'r sawl sy'n gofyn y cwestiwn/Aelod Panel ei fod wedi cael ei anfon ymlaen.* ***Ni fydd*** *y cwestiynau hyn felly yn cael eu derbyn yn gyhoeddus yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd).*

   - **Ni ddylai** fod yn debyg iawn i gwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod o fewn y chwe mis blaenorol, oni bai bod amgylchiadau wedi newid sydd yn cyfiawnhau gofyn y cwestiwn.

   - **Ni ddylai** fod angen datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol.

   - **Ni ddylai** fod yn drallodus nac yn ddifenwol.

4. Os yw'r Awdurdod Cynnal, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Panel Heddlu a Throsedd, o'r farn nad yw'r cwestiwn yn cydymffurfio â pharagraff 2 a 3, bydd yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n gofyn y cwestiwn, ac os yw'n briodol, yn cyfeirio'r cwestiwn at y corff cyhoeddus priodol. Os yw'r Awdurdod Cynnal yn ystyried nad yw'r cwestiwn yn cydymffurfio â pharagraff 2 a 3, bydd y cwestiwn yn cael ei gyfeirio at y Comisiynydd

a bydd yn cael ei drin fel petai wedi cael ei fabwysiadu gan y Panel Heddlu a Throsedd a bydd yn destun y weithdrefn isod.

5. Bydd cwestiynau a fabwysiedir gan y Panel Heddlu a Throsedd yn unol â pharagraff 4 uchod yn cael eu gofyn gan y Panel Heddlu a Throsedd i'r Comisiynydd, a rhoddir cyfrifoldeb ar Aelod y Panel i ofyn y cwestiwn, yn ôl doethineb y Cadeirydd, gan ystyried perthnasedd y cwestiwn i ardal (oedd) penodol o fewn awdurdodaeth y Panel Heddlu a Throsedd.

6. Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi ymateb i'r cwestiwn a fydd ar gael i'r unigolyn a ofynnodd y cwestiwn ("yr holwr") ac aelodau o Banel Heddlu a Throsedd erbyn hanner dydd y diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Panel, ble bydd y cwestiwn yn cael ei gyflwyno.

7. Fe ystyrir bod y cwestiwn "wedi cael ei ddarllen" ar gychwyn y cyfarfod.

8. Dim ond Aelod Panel all ofyn cwestiwn atodol, a rhaid i'r cwestiwn atodol ymwneud â'r cwestiwn ac ateb cychwynnol a rhaid iddo fod at ddibenion o eglurhad yn unig ac nid er mwyn trafod unrhyw gwestiwn neu fater newydd. Dim ond un cwestiwn atodol a ganiateir ar gyfer pob cwestiwn ac ateb cychwynnol. Bydd cwestiynau atodol ac ymatebion yn cael eu cynnwys yng nghofnod ffurfiol y cyfarfod.

9. Fe fydd yna achosion pan na fydd swyddogion y Comisiynydd yn gallu ymateb i gwestiwn atodol yn y cyfarfod. Mewn achosion o'r fath, bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi i'r holwr gan y Comisiynydd o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod, ac fe roddir copi i'r Awdurdod Cynnal.

10. Ni fydd cwestiwn ac ateb yn destun trafodaeth neu benderfyniad pellach yn y cyfarfod. Efallai y bydd cynnwys y cwestiwn yn destun adroddiad a thrafodaeth bellach mewn cyfarfod diweddarach o Banel Heddlu a Throsedd.

11. Fe dderbynnir y bydd y Panel Heddlu a Throsedd yn caniatáu hyd at 10 munud ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd, er efallai y bydd yn dymuno ymestyn hyn dan yr amgylchiadau priodol.

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
|---|---|---|
| **30 Ionawr 2018** | **Cynhelir y cyfarfod os caiff y praesept ei wahardd gan Banel yr Heddlu a Throsedd** | |
| **19 Mawrth 2018** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd** | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **19 Mawrth 2018** | **Adolygu Gweithdrefn Gwynion** | Richard Jarvis – Prif Swyddog/ Ymgynghorydd Cyfreithiol y PHaTh |
| **19 Mawrth 2018** | **Amserlen gyfarfod ar gyfer 2018/19** | Richard Jarvis – Prif Swyddog/ Ymgynghorydd Cyfreithiol y PHaTh |
| **Eitemau yn y dyfodol** | | |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd** Sicrhau y bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru. | Awdurdod Cynnal |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygu Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd** Adolygu'r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben. | Awdurdod Cynnal |
| **I'w gardarnhau** | **Cyflwyniad ar y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr, Gogledd Cymru** | Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |